



monmouthshire  
sir fynwy



## YR ADRODDIAD YMGYNGHORI

Sefydlu ysgol pob oed (4-19) a darpariaeth arbenigol ar gyfer disgyblion ag anghenion niwroddatblygol a dysgu cymhleth

## Cynnwys

---

1.	<u>Cyflwyniad</u>	3	
2.	<u>Rhannu'r Adroddiad Ymgynghori</u>	4	
3.	<u>Cefndir</u>	5	
4.	<u>Nodyn atgoffa am ein cynnig</u>	7	
5.	<u>Trefniadau Atgyfeirio</u>	8	
	5.1 Methodoleg	8	
	5.2 Cyfarfodydd Ymgynghori	8	
	5.3 Ymgynghori gyda phlant a phobl ifanc	10	
6.	<u>Canlyniadau a Sylwadau</u>	11	
	6.1 <u>Crynodeb o ganlyniadau'r ymgynghoriad</u>	11	
	6.2 <u>Crynodeb o sylwadau / pryderon</u>	11	
	6.3 <u>Sylwadau / pryderon penodol sydd wedi eu codi gan Ysgol uwchradd Brenin Harri'r</u>		
	<u>VIII</u>	33	
	6.4 <u>Sylwadau / pryderon penodol sydd wedi eu codi gan Ysgol Gynradd Deri View</u>		34
	6.5 <u>Barn y sawl sydd o blaid y cynigion</u>	37	
	6.6 <u>Barn Gwasanaeth Cyflawni Addysg (EAS)</u>	37	
7.	<u>Ymateb ESTYN</u>	38	
	7.1 <u>Ymateb y Cyngor i ESTYN</u>	41	
8.	<u>Adolygiad o'r effaith ar y cynigion (holl opsiynau)</u>	41	
9.	<u>Adolygiad o'r effaith ar yr opsiwn a ffefrir</u>	43	
	9.1 <u>Ansawdd a Safonau mewn Addysg</u>	44	
	9.2 <u>Effaith ar y Gymuned</u>	45	
	9.2 <u>Effaith ar drefniadau Teithio</u>	45	
10.	<u>Trosolwg a chonsensws cyffredinol</u>	46	
11.	<u>Argymhellion</u>	51	
	<u>Atodiad 1 - Rhestr o Ymgynghoreion a oedd yn rhan o'n hymgyngoriad</u>		53
	<u>Atodiad 2 - Ymgynghoriad gyda Phlant a Phobl Ifanc</u>	54	

## 1. Cyflwyniad

---

Mae'n ddyletswydd statudol ar Gyngor Sir Fynwy (y Cyngor) i sicrhau bod nifer ddigonol o leoedd addas ar gael ar gyfer plant o fewn ei Sir, ac wrth wneud hynny sicrhau y caiff adnoddau a chyfleusterau eu defnyddio'n effeithiol i gynnig y cyfleoedd addysgol y mae ein plant yn eu haeddu.

Mae cyfrifoldeb gan y Cyngor fel rhan o'i God Trefniadaeth Ysgolion 2018 (dogfen a gynhyrchwyd yn sgil Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013)<sup>1</sup> i ymgynghori gyda budd-ddeiliaid perthnasol wrth roi ystyriaeth i unrhyw gynigion sylweddol ar gyfer ad-drefnu ysgolion.

Roedd y Cyngor wedi ymgynghori yn ddiweddar mewn proses ymgynghori statudol sydd yn ymwneud gyda sefydlu ysgol pob oed (4-19) a darpariaeth arbenigol i ddisgyblion gyda gofynion niwroddatblygol ac anghenion dysgu cymhleth yn Y Fenni.

Pwrpas cynnal yr ymgynghoriad statudol yw gofyn am farn ein cymuned, budd-ddeiliaid allweddol a phartneriaid ar y cynnig.

Mae'r adroddiad ymgynghori hwn yn cynrychioli cyfrifoldebau'r Cyngor yn unol gyda Deddf Safonau a Threfniadau (Cymru) 2018 i greu adroddiad sydd yn ceisio hysbysu'r sawl sydd â diddordeb yn yr ymgynghoriad drwy:

- Crynhoi pob mater sydd wedi ei godi gan yr ymgyngoreion
- Ymateb i'r rhain drwy egluro, diwygio'r cynnig neu wrthod y pryderon gyda rhesymau cefnogol
- Amlinellu barn Estyn (fel sydd wedi ei nodi yn yr ymateb i'r ymgynghoriad) o rinweddau cyffredinol y cynnig.

## 2. Dosbarthu'r Adroddiad Ymgynghori

---

Mae'r adroddiad ymgynghori wedi ei gyhoeddi ar Wefan Cyngor Sir Fynwy (CSF) [www.monmouthshire.gov.uk/schoolreorganisation](http://www.monmouthshire.gov.uk/schoolreorganisation). Byddwn yn cysylltu gyda'r ymgynghoreion a phartïon a chanddynt fuddiant er mwyn eu hysbysu bod y ddogfen hon wedi ei chyhieddi.

- Rhieni, Gwarcheidwad a gofalwyr yr holl ddisgyblion sydd wedi eu heffeithio yn uniongyrchol gan y cynnig
- Pennaeth, staff a llywodraethwyr yr ysgolion o ble ddaw'r disgyblion
- Disgyblion/Cyngor y Disgyblion mewn ysgolion sydd wedi eu heffeithio'n uniongyrchol gan y cynnig
- Pennaeth pob un ysgol yn ardal CSF
- Holl Aelodau CSF
- Gweinidogion Cymru
- Holl Gynghorau Tref a Chymuned CSF
- Holl Aelodau Senedd sydd yn cynrychioli'r ardal sydd yn cael ei gwasanaethau gan yr ardal
- Holl Aelodau Senedd San Steffan sydd yn cynrychioli ardal CSF
- Cyfarwyddwyr Addysg yr holl ALI cyfagos– Blaenau Gwent, Powys, Torfaen, Henffordd
- Pennaeth Coleg Gwent
- Mon Life
- GAVO
- Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgol Sir Fynwy
- Cymdeithasau Dysgu
- Cymdeithasau Staff Cymorth
- Swyddog Polisi (Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg)
- Llywodraeth Cymru
- ESTYN
- Ymddiriedolaeth Esgobaeth yr Eglwys yng Nghymru, Cyfarwyddwr Addysg
- Ymddiriedolaeth Esgobaeth yr Eglwys Gatholig, Cyfarwyddwr Addysg
- Gwasanaeth Cyflawni Addysg De Ddwyrain Cymru
- Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gwent
- RHAG
- Mudiad Meithrin

### 3. Cefndir

---

Mae'r Cyngor yn ymdrechu i sicrhau'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant a phobl ifanc gan fuddsoddi yn y gwaith o ddysgu a datblygu ein holl blant, gan sicrhau fod ganddynt yr amgylcheddau, y sgiliau a'r gefnogaeth i ffynnu, a pharatoi ar gyfer gwaith y dyfodol ac i ddiwallu gofynion amgylchedd byd sy'n newid yn gyflym.

Mae'r Cyngor yn ymroddedig i wella cyflawniad a chyrhaeddiad addysgol pob plentyn a pherson ifanc yn y sir drwy ddarparu system addysg gynhwysol sy'n rhoi'r lle canolog i'r dysgwr.<sup>1</sup>

Drwy ein gwaith gydag ysgolion, rhieni a phartneriaid allweddol, anelwn:

- Sicrhau mynediad cyfartal i addysg ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc
- Cyflenwi cwricwlwm ansawdd uchel a chynhwysol i bob dysgwr
- Addysgu ein plant a'n pobl ifanc yn eu cymunedau lleol lle bynnag y bo modd
- Cefnogi plant a phobl ifanc a'u teuluoedd i'w galluogi i fyw bywyd hapus a bodlon
- Rhoi cyfleoedd ystyrlon i ddysgwyr gael mynediad i gymorth pan maent ei angen a dychwelyd i'w hysgol gymuned cyn gynted ag y gallant
- Diwallu anghenion plant a phobl ifanc yn awr a medru addasu i ddiwallu newidiadau mewn anghenion yn y dyfodol.

Mae'r nodau uchod yn cysylltu'n uniongyrchol â gwerthoedd craidd ein Cyfarwyddiaeth, sy'n anelu i sicrhau y bydd ein holl blant a phobl ifanc:

- **Yn barod ar gyfer ysgol** - drwy gymryd rhan yn ein rhaglenni Blynyddoedd Cynnar a Dechrau'n Deg
- **Yn yr ysgol** - gyda chefnogaeth ein timau mynediad a Lles Addysg.
- **Yn ymddwyn yn dda** - drwy gefnogaeth gan ein timau Ymddygiad a Chynhwysiant
- **Yn cael eu haddysgu yn dda** - gan yr athrawon a'r cynorthwywyr addysgu yn ein hysgolion.

Rydym wedi gwneud cynnydd dros y pum mlynedd ddiwethaf tuag at gyflawni'r ymrwymiad yma ar gyfer mwyafrif ein plant a phobl ifanc.

Mae addysg yn parhau'n flaenoriaeth uchel i'r Cyngor ac mae'n ymroddedig i sicrhau perfformiad gwell mewn darpariaeth addysgol yn unol â gofynion polisi ac amcanion Llywodraeth Cymru.

Yn ychwanegol at yr uchod, nod ein Rhaglen Band B Ysgolion a Cholegau yr 21ain Ganrif yw:

- Trin cyflwr a digonolrwydd ein hadeiladau ysgol, gan sicrhau fod yr ysgolion o faint a dyluniad addas i ddiwallu gofynion dysgu'r 21ain Ganrif
- Trin heriau ehangach amddifadedd, yn gysylltiedig gyda deilliannau addysgol a mynegeion ehangach amddifadedd a gesglir o Fynegai Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru.
- Trin problem lleoedd gwag i sicrhau fod gennym ddigon o leoedd ysgol yn y lle cywir ar gyfer y galw cyfredol a galw'r dyfodol
- Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng lleoli lleoedd gwag â sicrhau fod yr awdurdod yn diogelu at y dyfodol unrhyw fuddsoddiad a wnaiff yn y staff addysgol

Mae'r Cyngor yn ymroddedig i ddarparu cyfleoedd dysgu gydol oes mewn amgylchedd sy'n addas ar gyfer dysgu 21ain Ganrif, gan sicrhau fod gan blant a phobl ifanc fynediad i amgylchedd dysgu modern a darpariaeth dysgu ansawdd uchel er mwyn cefnogi dysgwyr i gyflawni eu potensial llawn.

---

<sup>1</sup> Cynllun Corfforaethol Cyngor Sir Fynwy 2017 - 2022

Fel rhan o'i strategaeth gyffredinol ar gyfer y Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif, bydd y Cyngor yn croesawu newid ar draws yr awdurdod mewn dysgu ac addysgu. Canlyniad i'r newid hwn fydd yr ymagwedd drawsnewidiol at ad-drefnu ac ailddatblygu'r stad ysgolion.

Bydd y Cwricwlwm i Gymru yn cael ei gweithredu ymhob un ysgol o fis Medi 2022.

I gefnogi dysgu, dylai'r cwricwlwm newydd gael ei drefnu yn gontinwrm o ddysgu o'r cyfnod y mae plentyn yn dod i mewn i addysg hyd at ddiwedd ysgol statudol a dylid cyfeirio addysgu a dysgu tuag at gyflawni pedwar diben dilynol y cwricwlwm:

- Dysgwyr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i ddysgu ar hyd eu bywydau
- Cyfranwyr mentrus a chreadigol, yn barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a Gwaith
- Dinasyddion moesegol a gwybodus o Gymru a'r byd
- Unigolion iach a hyderus, yn barod i fyw bywydau bodlon fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas

Mae hyn yn golygu y bydd angen i'r ysgol ad-drefnu'r cwricwlwm i'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad dilynol, a seiliwyd ar dair sgil traws-gwricwlaidd llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol.

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Llesiant
- Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Mae llawer o'n hysgolion wrthi'n cyflenwi elfennau'r cwricwlwm newydd ar hyn o bryd cyn ei ymestyn yn llawn yn 2022. Fodd bynnag, oherwydd yr angen am fwy o hyblygrwydd a chapasiti, bydd yn rhwyddach rheoli newidiadau i beth a sut mae disgyblion yn dysgu mewn amgylchedd pob oed nag mewn ysgol un cyfnod neu grŵp o ysgolion.

Mewn blynyddoedd diweddar, gwnaed cynnydd i drawsnewid addysg yn Sir Fynwy. Gwnaed cynnydd da ym meysydd:

- Gwella mynediad a lleoedd ysgol
- Gostwng nifer lleoedd gwag
- Dysgu Ôl 16
- Gwella presenoldeb mewn ysgolion
- Cynlluniau i wella ansawdd dysgu ac addysgu i gefnogi cynnydd disgyblion
- Adolygu Anghenion Dysgu Ychwanegol a'u diwallu ar y pwynt angen a lleoliad

Byddai gweithredu'r cynnig hwn yn galluogi'r Cyngor i wella ei stad ysgolion o fewn Y Fenni a gwella darpariaeth addysg o ran cwricwlwm staffio a threfniadaeth gan gyflawni ei amcanion ar gyfer addysg bellach o fewn Sir Fynwy

Wrth ystyried ei opsiynau a datblygu'r cynigion hyn, rhoddodd y Cyngor ystyriaeth ddyladwy i ofynion Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac argymhellion adroddiad 'Dyfodol Llwyddiannus' Donaldson.

## 4. Nodyn atgoffa o'n cynnig

---

Roedd yr Awdurdod Lleol wedi ymgynghori ar gynigion i sefydlu ysgol pob oed gyda darpariaeth ar gyfer plant ag anghenion niwroddatblygol cymhleth ar safle Ysgol Brenin Harri'r VIII gan agor ar y 1af o Fedi 2023.

Er mwyn hwyluso'r broses o sefydlu ysgol pob oed yn Y Fenni, bydd y Cyngor yn atal cynnal neu'n cau Ysgolion Deri View a Brenin Harri VIII o'r 1af Mai 2023.

Bydd adeilad yr ysgol newydd arfaethedig yn cael ei ariannu ar y cyd gyda Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Fynwy fel rhan o'r Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif

## 5. Trefniadau Ymgynghori

---

### 5.1 Methodoleg

---

Ar 14<sup>eg</sup> Ebrill 2021, roedd Cabinet y Cyngor wedi cymeradwyo'r cynigion i ddechrau ymgynghoriad statudol a oedd yn caniatáu'r Cyngor i ymgysylltu gyda budd-ddeiliaid allweddol ar sefydlu Ysgol pob oed, gyda darpariaeth arbenigol yng ngoledd y sir ar safle Ysgol Brenin Harri'r VIII.

Yn unol gyda Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2018, roedd y Cyngor wedi llunio dogfen ymgynghori a gyhoeddwyd ar 26<sup>ain</sup> Ebrill 2021, a oedd hefyd yn cynrychioli dechrau y cyfnod ymgynghori statudol. Roedd y cyfnod ymgynghori ffurfiol wedi parhau am fwy nag 8 wythnos (gan gynnwys 20 diwrnod ysgol), gan orffen ar 25<sup>ain</sup> Mehefin 2021.

Rhannwyd y ddogfen ymgynghori /dolenni gyda'r holl ymgynghoreion statudol a restrir yn atodiad 1 o'r ddogfen hon. Cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori hefyd ar wefan y Cyngor [www.monmouthshire.gov.uk/schoolreorganisation](http://www.monmouthshire.gov.uk/schoolreorganisation).

Roedd y Cyngor wedi codi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad drwy bostio'r dogfennau i'r ymgynghoreion statudol, gan gynnwys rhieni, staff, a chyrrff llywodraethu'r ysgolion sydd wedi eu heffeithio. Cynhaliwyd ymgyrch farchnata hefyd, gan wneud defnydd o gyfryngau cymdeithasol y Cyngor er mwyn hyrwyddo'r cynigion ac esbonio sut y gallai'r ymgynghoreion gyfrannu i'r broses.

Rhodddwyd gwybod i'r ymgynghoreion am y cyfleoedd canlynol i ymateb yn ffurfiol i'r cynigion ymgynghori:

- Cwblhau'r holiadur ymgynghori ar-lein a oedd ar gael yma [www.monmouthshire.gov.uk/statutoryconsultation](http://www.monmouthshire.gov.uk/statutoryconsultation)
- E-bostio [strategicreview@monmouthshire.gov.uk](mailto:strategicreview@monmouthshire.gov.uk).

### 5.2 Cyfarfodydd Ymgynghori

---

Roedd y Cyngor am ymgysylltu drwy gydol y cyfnod ymgynghori gyda'r holl bartïon a chanddynt ddiddordeb. Er y pandemig Coronafeirws a'r cyfyngiadau cenedlaethol, roedd y Cyngor wedi medru creu amgylchedd diogel i ymgysylltu ag ymgynghoreion statudol a phartïon a chanddynt ddiddordeb.

Roedd sesiynau ymgynghori penodol wedi eu cynnal gyda staff, llywodraethwyr a rhieni Ysgolion Uwchradd Brenin Harri'r VIII a Deri View. Cynhaliwyd digwyddiadau ymgynghori pellach gyda'r gynulleidfa ehangach, gan ganiatáu fod modd ymgysylltu gyda'r holl bartïon a chanddynt ddiddordeb yn y cynigion yma.



Cynhaliwyd y sesiynau ymgynghori canlynol ar y dyddiadau / amseroedd yma:

### Ysgol Gynradd Deri View

<b>Ysgol Gynradd Deri View</b>		
<b>Ymgynghorai</b>	<b>Dyddiad</b>	<b>Lleoliad</b>
Staff	27ain Mai 2021	Cyfarfodydd Teams
Llywodraethwyr	15fed Mehefin 2021	Cyfarfodydd Teams
Rhieni	22nd Mehefin 2021	Cyfarfod Corfforol
<b>Ysgol Uwchradd Brenin Harri'r VIII</b>		
<b>Ymgynghorai</b>	<b>Dyddiad</b>	<b>Lleoliad</b>
Staff	26ain Mai 2021	Cyfarfodydd Teams
Llywodraethwyr	26ain Mai 2021	Cyfarfodydd Teams
Rhieni	26ain Mai 2021	Cyfarfodydd Teams
<b>Ymgynghorai</b>	<b>Dyddiad</b>	<b>Lleoliad</b>
Y Gymuned Ehangach	9fed Mehefin 2021	Cyfarfodydd Teams
Y Gymuned Ehangach	17eg Mehefin 2021 Dwy sesiwn	Ysgol Uwchradd Brenin Harri'r VIII

Roedd Uwch y Swyddogion o gyfarwyddiaeth y Cyngor ar gyfer Plant a Phobl Ifanc wedi mynychu yr holl sesiynau ymgynghori, gan roi'r cyfle i bobl i ddysgu mwy am y cynigion a gofyn unrhyw gwestiynau a chodi unrhyw bryderon.

Roedd y swyddogion a fynychodd y cyfarfod ymgynghori wedi rhoi sicrwydd y byddai unrhyw sylwadau neu bryderon yn cael eu bwydo i mewn i'r broses ymgynghori. Fodd bynnag, roedd ymgynghoreion hefyd wedi eu hannog i gyflwyno eu hymatebion drwy'r dulliau a oedd ar gael.

Mae'r holl adborth sydd wedi ei dderbyn yn ystod y sesiynau ymgynghori ac wedi ei gynnwys yn adran 6.2 yr adroddiad yn amlygu rhai o'r prif themâu a ddaeth i'r amlwg ynghyd ag ymateb y Cyngor.

### 5.3 Ymgynghoriad gyda phlant a phobl ifanc

---

Roedd y Cyngor wedi datblygu fersiwn sydd yn “hawdd i blant ei deall” o’r ddogfen ymgynghori er mwyn sicrhau bod y plant a’r bobl ifanc yn yr ysgolion sydd yn cael eu heffeithio yn medru cymryd rhan lawn yn y broses ymgynghori.

Cynhaliwyd sesiwn ymgynghori ar 25ain Mehefin 2021 gyda phlant a’r bobl ifanc o Ysgol Uwchradd Brenin Harri’r VIII. At hyn, cynhaliwyd sesiwn ymgynghori ar 17eg Mehefin 2021 gyda phlant a’r bobl ifanc o Ysgol Gynradd Deri View. Hwyluswyd y sesiynau yma gan staff yr ysgol a swyddogion yr Awdurdod Lleol, gyda’r nod o ganfod barn y plant a’r bobl ifanc ar y cynigion i sefydlu ysgol pob oed yn Y Fenni.

Roedd grŵp cynrychioladol o ddisgyblion wedi eu penodi gan y ddwy ysgol i gwrdd â chynrychiolwyr o’r Awdurdod Lleol er mwyn rhannu eu barn am y cynigion. Defnyddiwyd crynodeb o’r ddogfen ymgynghori er mwyn atgoffa pobl ifanc o’r cynigion a’r rhesymau amdanynt. Roedd y sesiynau yn anffurfiol, gyda phlant a phobl ifanc yn cael y cyfle i siarad yn agored a gofyn cwestiynau. Gofynnwyd rhai cwestiynau penodol i’r bobl ifanc er mwyn annog trafodaeth, a chytunwyd ar y rhain gyda’r ddwy ysgol cyn cynnal y sesiynau.

Mae crynodeb o’r adborth a dderbyniwyd gan y plant a’r bobl ifanc i’w weld yn atodiad 2 o’r ddogfen hon. Mae’r adborth yma wedi ei ymgorffori o fewn adran 6.2 o’r adroddiad sydd yn amlygu prif themâu’r adborth a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad ynghyd ag ymateb y Cyngor.

## 6. Canlyniadau a Sylwadau

### 6.1 Crynodeb o ganlyniadau'r ymgynghoriad

Mae'r Cyngor wedi derbyn nifer o ymatebion fel rhan o'r broses ymgynghori. Mae proffil o'r sawl o ymatebodd i'w weld yn y tabl isod:

Categori'r Ymatebydd	Nifer o blaid	Nifer yn gwrthwynebu	Cytuno gyda rhai agweddau	Cyfanswm
Rhieni / Gofalwyr	19	47	17	83
Llywodraethwyr	3	1	0	4
Disgyblion	0	2	0	2
Staff	1	6	12	19
Ysgolion / staff/rhieni/Llyw eraill	8	41	21	70
Cymunedau	4	26	7	37
Undebau	0	0	0	0
Cynghorau Tref/Cymuned	1	2	1	4
Mudiadau Eraill	0	0	1	1
<b>Cyfanswm</b>	<b>36</b>	<b>125</b>	<b>59</b>	<b>220</b>

O.N. Mae'r tabl uchod yn adlewyrchu'r nifer o ymatebion ffurfiol a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad, naill ai drwy gwblhau arolwg yr ymgynghoriad neu drwy e-bostio [strategicreview@monmouthshire.gov.uk](mailto:strategicreview@monmouthshire.gov.uk).

Fodd bynnag, mae unrhyw adborth anffurfiol a dderbyniwyd yn ystod y sesiynau ymgynghori wedi ei adlewyrchu yn adran 6.2 o'r adroddiad.

Mae adborth ESTYN, y Gwasanaeth Cyflawni Addysg ac Ysgolion Cynradd Deri View ac Uwchradd Brenin Harri'r Henry VIII wedi eu cyhoeddi ar wahân o fewn yr adroddiad hwn.

### 6.2 Crynodeb o sylwadau / pryderon

Mae'r tabl isod yn dangos crynodeb o'r sylwadau a'r pryderon a fynegwyd yn ystod y broses ymgynghori ynghyd ag ymateb y Cyngor. Mae'r sylwadau a'r pryderon yma yn deillio o'r ymatebion ysgrifenedig a dderbyniwyd ynghyd â'r adborth a roddwyd adeg sesiynau ymgysylltu'r ymgynghoriad.

<b>Thema 1</b>	<b>Pryderon fod y ddarpariaeth addysg feithrin yn un nas cynhelir</b>
<b><i>Crynodeb o'r sylw / pryder</i></b>	<b><i>Ymateb yr ALI</i></b>
<p>Pryder y byddai lefelau diogelu yn cael eu heffeithio'n andwyol drwy sefydlu canolfan addysg feithrin nas cynhelir gan na fyddai cyfrifoldeb gan y Pennaeth / Corff Llywodraethu, a ni fyddai dyletswydd ar y ganolfan i rannu'r fath wybodaeth gyda'r ysgol.</p>	<p><i>Mae unrhyw ganolfan nas cynhelir sydd wedi ei gymeradwyo i ddarparu addysg gynnar yn gorfod cydymffurfio gyda Pholisi Diogelu Corfforaethol Cyngor Sir Fynwy a meddu ar ei Pholisi Corfforaethol ei hun. Rhaid bod yr holl staff gofal wedi cwblhau hyfforddiant Diogelu a bydd yna Swyddog Diogelu Dynodedig (DSO) a Dirprwy ar gael a fydd wedi derbyn hyfforddiant pellach yn y maes diogelu. Bydd angen i'r ganolfan i gwblhau archwiliad SAFE bob dwy flynedd, fel ysgolion eraill. Byddai'r cyfathrebu rhwng yr ysgol a'r ganolfan nas cynhelir yn gadarn.</i></p>
<p>Roedd yna bryder na fyddai'r lefel o gyfathrebu rhwng yr ysgol a'r ganolfan nas cynhelir yn gadarn o'i gymharu gyda chanolfan a gynhelir, gan eu bod yn fudiadau ar wahân. A fyddem yn ddibynol ar ewyllys da y ganolfan nas cynhelir a'r parodrwydd i weithio'n agos gyda'r ysgol?</p>	<p><i>Nid oes yna reswm pam na ddylai'r cyfathrebu rhwng yr ysgol a'r ganolfan nas cynhelir fod yn gadarn. Dyma'r trefniant sydd eisoes ar waith mewn ardaloedd eraill o Sir Fynwy ac mae'n llwyddiannus.</i> <i>Mae canolfannau nas cynhelir yn cytuno ar gytundeb lefel gwasanaeth gyda'r awdurdod lleol sydd yn cael ei fonitro bob tymor. Mae'n ofynnol bod y ganolfan nas cynhelir yn gweithio'n agos gyda'r ysgolion sy'n bwydo a'n rhannu gwybodaeth berthnasol, yn unol gyda'r rheoliadau diogelu data.</i></p>
<p>Barn fod 20 o lefydd yn y bore ac 20 o lefydd ar gyfer y prynhawn i deuluoedd Dechrau'n Deg yn annigonol</p>	<p><i>Mae'r nifer o lefydd Dechrau'n Deg wedi ei bennu gan y Rheolwr Dechrau'n Deg, sydd yn seiliedig ar y sawl sydd wedi manteisio ar hyn yn y gorffennol a data am y nifer o enedigaethau. Rydym yn ystyried y posibilrwydd o gynnal canolfan gofal plant Dechrau'n Deg yng Nghanolfan Acorn Centre ar y safle Deri View presennol; byddai hyn yn cynnig mwy o ddewis i rieni sydd yn gymwys ar gyfer gofal plant Dechrau'n Deg a'n cynyddu'r nifer o lefydd sydd ar gael.</i></p>
<p>Pryder fod y cynigion am ganolfan nas cynhelir yn mynd i arwain at gostau cynyddol ymhlith teuluoedd sydd eisoes yn byw mewn ardal hynod amddifad yn y sir. Ni fyddai llawer o deuluoedd Deri View yn medru talu am eu llefydd addysg feithrin</p>	<p><i>Mewn canolfannau nas cynhelir, mae sesiynau addysg gynnar o ddwy awr y dydd yn cael eu hariannu gan yr awdurdod lleol, ac nid oes yna gost i'r teuluoedd oni bai eu bod am gael sesiynau hwy. Mae yna gymorth ariannol ar gael ar gyfer gofal cofleidiol gan gynnwys y Cynnig Gofal Plant, credydau treth gofal plant a lleoedd a gynorthwyir. Mae cynllun lleoedd a gynorthwyir wedi ei sefydlu i elwa plant bregus neu sydd o dan anfantais ac sydd yn mynd i elwa o ofal plant ychwanegol ond nid yw eu rhieni yn medru fforddio hyn.</i></p>
<p>Gofynnwyd a fyddai'r nifer o lefydd yn y feithrinfa yn amrywio, gan ddibynnu a yw'r ddarpariaeth yn cael ei chynnal ai peidio</p>	<p><i>Bydd 60 o lefydd rhan amser ar gael, doed a ddelo a yw'r ddarpariaeth yn cael ei chynnal ai peidio.</i></p>

<p>Barn fod y ddarpariaeth a gynhelir bresennol yn Deri View yn ardderchog ac yn diwallu anghenion y gymuned, ac felly, mae yna benbleth ynglŷn â pham newid y ddarpariaeth hon? Ai'r rheswm dros gynnig darpariaeth nas cynhelir yw gwella'r ddarpariaeth gyfredol?</p>	<p><i>Nid yw'r cynnig i newid i ddarpariaeth nas cynhelir ar safle'r ysgol newydd yn adlewyrchiad o ansawdd y ddarpariaeth yn Ysgol Gynradd Deri View. Mae'r penderfyniad mewn ymateb i ymroddiad Llywodraeth Cymru i symud at ddull Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar unedig dros y blynyddoedd nesaf.</i></p>
<p>Mae angen i'r awdurdod lleol i esbonio'r gwahaniaeth rhwng darpariaeth a gynhelir a darpariaeth nas cynhelir</p>	<p><i>Yn ei hanfod, nid oes gwahaniaeth yn yr hyn a gynigir gan darpariaeth a gynhelir o'i gymharu â darpariaeth nas cynhelir. Rhaid iddynt ddilyn cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen a chwblhau Proffiliau Cyfnod Sylfaen a bydd y ddwy ddarpariaeth yn symud i'r 'Cwricwlwm i Gymru' newydd. Mae manteision ac anfanteision eglur i'r ddwy opsiwn ond prif fantais darpariaeth nas cynhelir yw ei bod yn cynnig mwy o hyblygrwydd, staff wedi eu hyfforddi mewn datblygiad plant, cymhareb is o ran staff a phlant (1:8 yn hytrach na 1:10) ac maent yn cael eu cefnogi gan arbenigwyr blynyddoedd cynnar o'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg (EAS). Ar y llaw arall, mae manteision darpariaeth a gynhelir yn cynnwys plant yn bod yn rhan o'r ysgol ac yn cyfarwyddo gyda staff a threfniadau sydd yn golygu cyfnod pontio mwy hawdd wrth symud i'r Dosbarth Derbyn. At hyn, mae'r sesiynau meithrin yn tueddu i gael eu harwain gan athro cymwys ac mae modd dilyn y cwricwlwm o 3 mlwydd oed.</i></p>
<p>Pryder y byddai'r trefniadau pontio a'r lefelau o atebolrwydd yn cael eu heffeithio'n andwyol mewn darpariaeth nas cynhelir. Mae'r ddarpariaeth bresennol yn cael ei rheoli gan yr ysgol, ac mae plant eisoes yn teimlo'n rhan o'r ysgol, yn gyfarwydd gyda'r awyrgylch ac yn cymryd rhan yng ngweithgareddau'r ysgol a byddai hyn oll yn cael ei golli. Mae cyfrifoldeb gan yr ysgol am blant o oedran cynt mewn darpariaeth a gynhelir.</p>	<p><i>Nid oes rheswm pam na all plant mewn darpariaeth nas cynhelir gymryd rhan yng ngweithgareddau'r ysgol, fel y gwasanaeth, diwrnodau chwaraeon, cynteddau Nadolig ac ati; rydym yn annog hyn. Prif anfantais cael darpariaeth nas cynhelir ar safle'r ysgol yw bod staff yn medru ymweld a chyfarwyddo eu hunain gyda'r plant a vice versa, gan sicrhau bod yna bontio ddiraffferth wrth symud i'r Dosbarth Derbyn.</i></p>
<p>Barn bod y lefelau cefnogaeth ar gyfer plant blynyddoedd cynnar sy'n fregus neu ag ADY yn mynd i ddioddef. Mae cylch gorchwyl ALNCO presennol yr ysgol yn</p>	<p><i>Mae angen i'r holl ddarpariaethau nas cynhelir i gwblhau hyfforddiant ADY rhanbarthol sydd wedi ei datblygu'n benodol ar gyfer canolfannau Blynyddoedd Cynnar. Rhaid i bob canolfan feddu ar ALNCO a rhaid iddynt roi gwybod i'r Awdurdod</i></p>

<p>caniatáu bod modd adnabod a symud yn ddiraffferth i'r Dosbarth Derbyn gyda lefelau priodol o gymorth. Mae darpariaeth nas cynhelir yn golygu nad yw'r ysgol yn atebol.</p>	<p><i>Lleol os oes ganddynt unrhyw bryderon am blentyn yn eu gofal. Mae Deddf Tribiwnlys Anghenion Dysgu Ychwanegol ac Addysg (Cymru) yn gosod y ddyletswydd statudol ar awdurdod lleol i gynnal CDU i blant sydd yn derbyn addysg mewn canolfan nas cynhelir ac sydd yn meddu ar ADY.</i></p>
<p>Mae plant sydd yn cael eu heffeithio yn cael cynnig 2 awr ar hyn o bryd mewn canolfannau nas cynhelir, ond 2.5 awr mewn lleoliadau a gynhelir ac felly, mae teuluoedd o dan anfantais yn sgil y cynigion yma.</p>	<p><i>Mae dyletswydd statudol ar yr Awdurdod Lleol i ddarparu isafswm o 10 awr yr wythnos o addysg gynnar am ddim i blant rhwng 3 a 4 mlwydd oed tan eu bod yn cael cynnig lle amser llawn mewn ysgol. Mae meithrinfa Deri View yn cynnig pum sesiwn 2 ½ yr wythnos (cyfanswm o 12 ½ awr mewn wythnos) ond nid yw hyn yn wir am yr holl ysgolion cynradd yn Sir Fynwy ac mae rhai wedi cwtogi hyd ei sesiynau meithrinfa i 2 awr. Os yw plentyn bregus neu o dan anfantais yn mynd i elwa o gyfnod hirach, mae modd ariannu hyn drwy'r Cynllun Llefydd a Gynorthwyr.</i></p>
<p>Pryderon nod yw maint y feithrinfa yn ddigon yn sgil twf tebygol Y Fenni, yn enwedig o ran darpariaeth gofal cofleidiol. A oes yna risg y bydd rhai teuluoedd o dan anfantais heb unrhyw ddarpariaeth gan fod y niferoedd yn rhy uchel?</p>	<p><i>Bydd yr ysgol newydd yn meddu ar ddwy ffrwd, sydd yn uchafswm o 60 o lefydd ym mhob grŵp, ac felly, bydd y feithrinfa yn gyson gyda hyn. Rydym yn monitro faint o lefydd sydd yn cael eu llenwi bob tymor ac mae digon o lefydd ar gael ar draws Y Fenni ac mae digon o lefydd ym meithrinfa Deri View. Os yw niferoedd yn cynyddu'n sylweddol a bod yna alw uchel am lefydd yn y feithrinfa, bydd y broses gais yn sicrhau bod blaenoriaeth yn cael ei rhoi i blant o fewn y dalgylch sydd yn dechrau ysgol yn y flwyddyn ganlynol.</i></p>
<p>Barn y dylai'r corff llywodraethu dros dro fod yn gyfrifol am bennu a yw'r ddarpariaeth yn un a gynhelir neu'n un nas cynhelir?</p>	<p><i>Rhaid oedd paratoi'r ddogfen ymgynghori cyn ffurfio'r corff llywodraethu dros dro; fodd bynnag, yr opsiwn a ffeirir yw hyn a bydd barn pawb yn cael ei hystyried cyn gwneud y penderfyniad terfynol.</i></p>
<p>Roedd yna gwestiwn am y ddarpariaeth bresennol a gynigir gan y Ganolfan Acorn a Dechrau'n Deg ac a fyddai'r ddarpariaeth hon yn symud i'r safle newydd? Mae'r gefnogaeth a'r ymyriadau yn amhrisiadwy. Diffyg dealltwriaeth ynglŷn â pham ein bod yn creu ysgol pob oed o dan 1 strwythur arwain ond yn eithrio darpariaeth addysg gynnar o hyn.</p>	<p><i>Bydd yn ddarpariaeth ar safle'r ysgol newydd am staff Dechrau'n Deg a Chanolfan Acorn. Am flynyddoedd lawer, mae gofal plant yn Sir Fynwy wedi ei ddarparu gan Grŵp Chwarae Tiny Tots a Chylch Meithrin Y Fenni, sydd yn lleoliadau nas cynhelir ac mae hyn wedi bod yn effeithiol.</i></p>
<p>Pryder fod plant sydd yn mynychu meithrinfa nas cynhelir yn cael eu dysgu gan athro cymwys: a fyddai yn</p>	<p><i>Nid oes yna ofyniad bod plant sydd yn derbyn addysg gynnar yn cael eu dysgu gan athro cymwys, p'un ai bod hyn mewn lleoliad a gynhelir neu leoliad nas cynhelir. Mae rhai meithrinfeydd yn</i></p>



digwydd gyda meithrinfa a gynhelir?	<i>Sir Fynwy lle nad yw'r plant yn cael eu dysgu gan athro cymwys; yn yr un ffordd, mae yna leoliadau nas cynhelir gennym sydd yn cynnwys athrawon cymwys.</i>
Barn fod y cwricwlwm newydd wedi ei anelu at 3-19 ac nid yw'r cynigon am leoliad nas cynhelir yn caniatáu'r ysgol i gyflenwi a bod yn atebol am y cwricwlwm ar gyfer plant oedran meithrin	<i>Mae lleoliadau nas cynhelir cymeradwy yn dilyn y cwricwlwm newydd ac wedi derbyn hyfforddiant am hyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu arbenigwyr blynyddoedd cynnar i ddatblygu cwricwlwm yn benodol ar gyfer lleoliadau nas cynhelir fel eu bod yn dilyn yr un egwyddorion a'n datblygu'r un sgiliau â chwricwlwm yr ysgol.</i>

Thema 2	Yr effaith y bydd y cynnig yn cael ar Ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol
<b>Crynodeb o'r sylw / pryder</b>	<b>Ymateb yr ALI</b>
Roedd ymgynghoreion yn frwd ynglŷn â chadarnhau beth fyddai'n rhan o'r ddarpariaeth ADY newydd yn yr ysgol newydd, sef rhywbeth sydd yn hygyrch i ddisgyblion sydd ag ystod o anghenion niwrddatblygol. A fydd yna lefydd tawel penodol, gofodau cyhoeddus na sydd yn adleisio ac sydd yn dawel? A fydd yna arwynebedd penodol yn cael ei ddefnyddio fel nad yw cadeiriau yn crafu'r llawr a'n creu sŵn uchel? A fydd yna adeiladau a llefydd gwahanol sydd â themâu gyda lliwiau a siapiau?	<i>Mae swyddogion ADY yr awdurdod lleol, Seicolegwyr Addysg ac ymarferwyr ADY i'r ysgolion wedi cyfrannu at y cyfarfodydd cynllunio sydd yn ymwneud gyda dyluniad yr ysgol newydd. Bydd yr ysgol newydd yn cydymffurfio gyda'r holl ddeddfwriaeth anabledd perthnasol a'n ystyried yr angen i sicrhau awyrgylch sydd yn hygyrch i'r holl ddysgwyr ADY gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion niwrddatblygol. Bydd hyn yn cynnwys dewis lliwiau a deunyddiau sydd yn cael eu defnyddio ar gyfer y waliau/celfi ayyb. er mwyn medru ystyried anghenion synhwraidd y disgyblion.</i>
Roedd ymgynghoreion wedi codi pryderon am strwythur staffio ADY a sut y mae ysgolion mawr ym methu cynnig yr un lefel o gymorth gan CADY. Beth fydd y strwythur staffio ADY ac a fydd yna barhad rhwng y Cyfnodau Allweddol?	<i>O dan ddeddfwriaeth ADY a'r Cod ALNET ac ADY, mae CADY nawr ôl rôl statudol a rhaid i ysgolion gael CADY penodol sydd naill ai yn rhan neu'n meddu ar gysylltiadau uniongyrchol gydag Uwch Dîm Rheoli'r ysgol. Fel rhan o'r rôl statudol yma, rhaid i'r CADY gael digon o amser i ymgymryd â'r rôl a bydd y CADY yn gyfrifol am gydlynu darpariaeth ADY ar draws yr ysgol. Mantais ysgol 3-19 yw y bydd y cyfleuster/adran 3-19 yn ymdrin â'r ystod lawn o oedran a bydd hyn yn sicrhau cysondeb rhwng y cyfnodau allweddol a'r cyfnodau pontio gwahanol.</i>
Mynegwyd pryderon am yr aflonyddwch sydd yn mynd i gael ei brofi gan ddisgyblion ADY pan yn symud i'r ysgol newydd, gyda ymgynghoreion am wybod	<i>Bydd yr holl ddisgyblion ag ADY yn derbyn cynllun teilwredig er mwyn cefnogi'r broses o symud â'r ysgol. Gallai hyn gynnwys ymweliadau i'r ysgol</i>

<p>sut y mae'r ALI yn mynd i fynd i'r afael gyda hyn gan wneud y newid mor ddiffwdan ag sydd yn bosib?</p>	<p><i>newydd pan fydd hi'n dawel, llyfrau personol sydd yn cynnwys lluniau o'r safle a'r athrawon, straeon cymdeithasol, ffilmiau byr am yr ysgol a fydd yn dangos y manau a'r cyfleusterau ADY penodol. Os oes pryder penodol gan blentyn, bydd hyn yn cael ei ddelio ar lefel unigol. Bydd staff o'r ysgol newydd yn gwneud cysylltiadau gyda'r ysgolion sy'n bwydo fel eu bod yn dod yn 'wyneb cyfarwydd' i'r plant ac yn un y maent yn medru adnabod wrth symud i addysg uwchradd.</i></p>
------------------------------------------------------------------------------------------------------------	------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

<p><b>Thema 3</b></p>	<p><b>Barn a dderbyniwyd o ran Logisteg a'r adeilad ysgol newydd</b></p>	
<p><b>Crynodeb o'r sylw / pryder</b></p>	<p><b>Ymateb yr ALI</b></p>	
<p>Derbyniwyd ymholiad am y broses o adeiladu a'r sŵn / y dwst / aflonyddwch a fydd yn cael eu hachosi gan y datblygiad a sut y mae hyn yn mynd i effeithio ar blant yn ystod arholiadau</p>	<p><i>Bydd ychydig o aflonyddwch yn anochel yn ystod y broses o adeiladu. Bydd cynllun Rheoli Safle yn cael ei lunio gan y Contractwr er mwyn mynd i'r afael gyda hyn a bydd Rheolwr Safle yn cael ei apwyntio yn ystod y prosiect er mwyn sicrhau ein bod yn gweithredu'r Cynllun Rheoli Safle ac yn cydymffurfio gyda'r cynllun</i></p>	
<p>Derbyniwyd ymholiad am y cynlluniau ar gyfer yr adeiladau presennol ar y safle. A fyddant yn cael eu defnyddio tra bod y safle newydd yn cael ei adeiladu? Beth yw'r cynlluniau ar gyfer y ganolfan gymunedol?</p>	<p><i>Mae'r cynnig yn cynnwys cadw plant yn yr adeiladau presennol tan fod yr adeilad yr ysgol newydd wedi ei gwblhau. Bydd y Ganolfan Hamdden yn parhau ar agor drwy gydol y cyfnod hwn.</i></p>	
<p>Mynegwyd pryder am faint yr ysgol newydd arfaethedig a bod hyn yn mynd i arwain at gollu llefydd awyr agored ac arwain at ddiffyg lle ar gyfer hamdden ac Addysg Gorfforol</p>	<p><i>Ni fydd yr ysgol arfaethedig newydd yn arwain at gollu unrhyw lefydd awyr agored. Efallai y bydd cyfleusterau yn cael eu hadleoli i rywle arall ar y safle, ond byddant yn cael eu huwchraddio a'u gwella.</i></p>	
<p>Gwnaed cais am amserlen ar gyfer y gwaith adeiladu a'i gyhoeddi fel bod y cyhoedd yn medru ei adolygu</p>	<p><i>Bydd y Cyngor yn cyhoeddi amserlen cyn gynted ag sydd yn bosib ar gyfer adeiladu'r ysgol newydd. Rydym yn rhagweld y bydd y Contractwyr yn symud i'r safle yng Ngorffennaf 2022 a'n gadael yn Rhagfyr 2024. Fodd bynnag, gallai hyn newid.</i></p>	
<p>Barn gref fod angen i'r ysgol newydd gynnwys ardal goedwig ar gyfer yr ysgol</p>	<p><i>Mae ysgol goedwig a manteisio ar lefydd awyr agored ar gyfer dysgu a</i></p>	



	<i>hamdden yn rhan o'r briff ar gyfer y prosiect.</i>
<p>Ymholiadau am y broses adeiladu a'i effaith ar yr amgylchedd:</p> <p>A fydd yr ysgol yn cael ei dylunio mewn ffordd sydd yn lliniaru yn erbyn yr effeithiau negatif ar yr amgylchedd?</p> <p>A fydd yr adeilad yn garbon niwtral neu'n cael ei ddylunio i gynnig ynni yn ôl i'r grid?</p> <p>Sut y bydd yr ecoleg yn yr amgylchedd yn cael ei ddiogelu?</p> <p>Sut y byddwch yn cynnig dulliau gwyrdd o deithio?</p> <p>Sut y byddwch yn delio gyda'r effaith ar elfen weledol yr amgylchedd?</p> <p>A fydd yna bwyntiau gwefru trydan ar gyfer y cerbydau?</p>	<p><i>Ydy - mae'r cyllid yn cynnwys amod bod angen dylunio'r ysgol hyd at safon BREEAM Ardderchog</i></p> <p><i>Mae'r ysgol yn cael ei dylunio i fod yn Garbon Net-Sero.</i></p> <p><i>Bydd yr arolygon yn cael eu cynnal a byddwn yn ymateb i'r argymhellion</i></p> <p><i>Bydd gofynion teithio dysgwyr a staff yn cael eu hasesu fel rhan o Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013</i></p> <p><i>Byddwn yn llunio adroddiadau Arolwg Gweledol o'r Tirwedd er mwyn sicrhau bod yr hyn sydd yn cael ei adeiladu yn ymateb – mor belled ag sy'n bosib – i adlewyrchu cymeriad a chymeriad yr amgylchedd, ac yn integreiddio'n llwyddiannus gyda'r amgylchedd.</i></p> <p><i>Bydd pwyntiau gwefru trydan ar gyfer y cerbydau yn cael eu gosod</i></p>
<p>Mynegwyd pryder am y seilwaith presennol ar safle ysgol a'r ardaloedd cyfagos a pha mor anaddas yw'r seilwaith ar gyfer delio gyda thraffig ychwanegol sydd yn mynd i gael ei achosi gan ysgol fwy. At hyn, bydd yna rhai o fewn y gymuned am ddefnyddio'r Ganolfan Hamdden - sut y bydd hyn yn cael ei reoli?</p>	<p><i>Mae trafodaethau cynnar yn cymryd lle o fewn Adran Priffyrdd Sir Fynwy a chynlluniau i reoli a gwella'r traffig o gwmpas y safle a'r ardal gyfagos yn cael eu datblygu. Byddwn yn cynnal Asesiad o'r Effaith ar Drafnidiaeth. Bydd yn parhau i gadw mynediad at y Ganolfan Hamdden drwy gydol y prosiect.</i></p>
<p>Ymholiad ynglŷn â pham nad yw'r dyluniadau gweledol ar gyfer yr ysgol newydd wedi eu cyhoeddi eto. A yw'r dyluniadau wedi eu cwblhau neu a fydd y gymuned yn cael mewnbwn?</p>	<p><i>Nid yw'r dyluniadau gweledol wedi eu cwblhau ar hyn o bryd a byddant ar gael i'r cyhoedd i wneud sylwadau maes o law</i></p>
<p>Ymholiadau am sut y bydd disgyblion / rhieni yn cael mynediad at y safle newydd gan gynnwys:</p> <p>A fydd yna lwybrau cerdded diogel ar gyfer disgyblion / rhieni er mwyn medru teithio i'r ysgol?</p>	<p><i>Byddwn yn darparu llwybrau cerdded diogel i rieni a disgyblion.</i></p>

<p>A fydd yna nifer digonol o lefydd i gasglu/gollwng disgyblion mewn ysgol mor fawr?</p> <p>A fydd rhieni yn medru cael mynediad at y safle drwy gydol y dydd, er enghraifft ar gyfer plant ysgol feithrin na sydd yno drwy'r dydd?</p> <p>Sut y mae'r safle yn mynd i gael ei gadw'n ddiogel?</p>	<p><i>Bydd nifer digonol o lefydd i gasglu/gollwng disgyblion. Bydd hyn yn cael ei bennu drwy gyfrwng yr Asesiad o'r Effaith ar Drafnidiaeth.</i></p> <p><i>Mae amser dechrau a gorffen ysgolion 3-19 yn amrywio fel bod disgyblion iau a hŷn yn cael eu cadw ar wahân ac mae hyn yn helpu gyda phroblemau tagfeydd. Mae rhieni yn medru cael mynediad at y safle ar degau priodol.</i></p> <p><i>Bydd cynllun rheoli traffig yn cael ei greu mewn cydweithrediad gyda'r Adran Briffyrdd fel rhan o'r prosiect.</i></p>
<p>Beth yw'r rhesymeg sydd y tu nôl i agor yn 2023 ac nid oedi tan 2024 pan fydd yr adeilad yn barod?</p>	<p><i>Mae'r Cyngor yn teimlo ei fod yn fwy manteisiol i sefydlu'r ysgol newydd cyn symud i mewn i'r adeilad newydd.</i></p>
<p>Ymholiad ynglŷn ag a fydd safle Deri View yn cael ei ailwampio ac yn addas at ddibenion Ysgol Gymraeg Y Fenni</p>	<p><i>Bydd Deri View yn elwa o fuddsoddiad cyfalaf er mwyn ei gwneud yn addas i'r diben ar gyfer Ysgol Gymraeg Y Fenni</i></p>
<p>Mynegwyd pryder bod maint y ddarpariaeth uwchradd yn annigonol ar gyfer y dyfodol, yn enwedig gyda chynigion y CDLI i ddatblygu'r Fenni yn sylweddol a darparu 8,000 o dai newydd. A fydd yr adeilad yn caniatáu hyblygrwydd o ran twf?</p>	<p><i>Mae capasiti o fewn yr adeilad newydd i ddelio gyda'r twf. Nid yw'r CDLI wedi ei gytuno eto ac felly, rydym ond yn medru defnyddio'r wybodaeth sydd gennym ar hyn o bryd.</i></p>

<b>Thema 4      Effaith ar Gyfleusterau Hamdden</b>	
<b>Crynodeb o'r sylw / pryder</b>	<b>Ymateb yr ALI</b>
<p>Roedd ymgylgoreion am ddeall pa gyfleusterau chwaraeon a hamdden sydd i'w cynnal a'u darparu yn yr ysgol newydd phwy fydd yn medru eu defnyddio?</p>	<p><i>Ar hyn o bryd, y cynnig yw sicrhau bod yr un cyfleusterau chwaraeon a hamdden ar gael ar y safle newydd, gyda neuadd chwarae ar wahân yn yr ysgol newydd a maes chwaraeon 4G newydd.</i></p> <p><i>Bydd yr holl gyfleusterau hamdden a chwaraeon ar gael i'r gymuned leol eu defnyddio y tu hwnt i oriau ysgol.</i></p>
<p>Mynegwyd pryderon ynglŷn â sut y bydd y cyfleusterau presennol yn cael eu heffeithio yn ystod y broses o adeiladu'r ysgol newydd?</p>	<p><i>Bydd y Ganolfan Hamdden bresennol dal ar gael pan fydd yr ysgol newydd yn cael ei hadeiladu. Bydd rhai cyfleusterau allanol yn methu cael eu defnyddio pan fydd yr ysgol newydd yn cael eu hadeiladu.</i></p> <p><i>Ni fydd modd defnyddio rhai cyfleusterau allanol am gyfnodau o amser ond bydd y rhaglen o waith yn</i></p>

	<i>cael ei llunio er mwyn sicrhau bod cyn lleied o aflonyddwch ag sydd yn bosib.</i>
--	--------------------------------------------------------------------------------------

<b>Thema 5 Effaith ar staff</b>	
<b>Crynodeb o'r sylw / pryder</b>	<b>Ymateb yr ALI</b>
Mynegydd pryderon am staff yn colli eu swyddi. A fydd yn rhaid i staff ail-wneud cais am eu swyddi neu a fydd eu swyddi yn cael eu diogelu?	<i>Bydd Corff Llywodraethu'r ysgol newydd yn pennu'r strwythur staffio newydd ar gyfer yr ysgol. Mae'r Cyngor yn hyderus y bydd y rhan o fwyaf o staff yn trosglwyddo i'r ysgol newydd. Os bydd angen diswyddo gweithwyr, bydd polisi Diogelu Cyflogaeth y Cyngor yn berthnasol.</i>
A fydd staff Deri View yn trosglwyddo i'r lleoliad nas cynhelir?	<i>Ni fydd staff Deri View yn trosglwyddo i'r lleoliad nas cynhelir gan fod rheolwyr gwahanol gan y fath leoliad sydd yn apwyntio ei staff ei hun.</i>
Mynegydd pryderon am lesiant staff adeg cyfnod o ansicrwydd. Sut y mae modd cefnogi llesiant staff?	<i>Bydd Partner Busnes Adnoddau Dynol yn cefnogi llesiant y staff ar gyfer y ddwy ysgol yn ystod y broses. Byddwn yn cynnal ymgynghoriad rheolaidd gyda'r holl staff. Byddwn yn gweithredu rhaglen rheoli newid cadarn a fydd yn cael ei gweithredu er mwyn cefnogi staff yn ystod y cyfnod pontio.</i>

<b>Thema 6 Pryderon Diogelu</b>	
<b>Crynodeb o'r sylw / pryder</b>	<b>Ymateb yr ALI</b>
Mynegydd pryderon am blant sydd yn cael eu diystyru mewn ysgol fawr a gallu ysgolion i adnabod materion ehangach o fewn teuluoedd fel esgeulustod, iechyd meddwl ayyb a'u bod yn cael eu colli. Teimlwyd fod angen meithrin plant ac nid yw ysgol fawr yn medru cynnig hyn ar y lefel y mae plant iau ei angen.	<i>Nid yw ysgol fwy yn golygu y bydd plant yn cael eu trin yn wahanol i'r hyn sydd yn digwydd mewn ysgol fach. Mae lefelau staffio mewn ysgol fwy yr un peth – o ran canran – a'r hyn sydd mewn ysgolion llai. Mae hyn yn golygu y bydd staff yn adnabod ac yn meithrin plant gystal p'un ai eu bod mewn lleoliad nas cynhelir, ysgol fach neu ysgol pob oed.</i>
Roedd yna bryderon wedi eu codi am lefelau diogelu meithrinfa nas cynhelir sydd wedi ei lleoli ar safle ysgol?	<i>Nid oes unrhyw bryderon gan yr Awdurdod Lleol am lefelau diogelu mewn lleoliadau nas cynhelir. Mae hyn yn sgil y ffaith fod lleoliadau nas cynhelir yn gorfod dilyn yr un gweithdrefnau diogelu a'r un lefel o hyfforddiant â'r hyn sydd yn berthnasol mewn lleoliadau a gynhelir ac ysgolion.</i>
Roedd yna farn na ddylai pobl iau, fwy bregus, fod ar yr un safle â phlant oedran ysgol uwchradd. Roedd yna bryderon na fyddai plant yn cael eu	<i>Byddem yn disgwyl i'r ysgol i reoli'r rhyngweithio rhwng yr holl ddysgwyr ar y safle fel bod pobl ifanc yn cael eu diogelu drwy'r amser.</i>

diogelu o'r iaith, yr ymddygiad a'r dylanwad potensial o ryngweithio gyda phobl ifanc yn eu harddegau.	
--------------------------------------------------------------------------------------------------------	--

<b>Thema 7</b>	<b>Effaith ar ddisgyblion</b>
<b>Crynodeb o'r sylw / pryder</b>	<b>Ymateb yr ALI</b>
Roedd yna bryderon y byddai'r cynnig yn arwain at system dwy haen ar gyfer addysg gynradd yn Y Fenni.	<i>Mae hyn yn ganlyniad posib ond byddem yn disgwyl y byddai'r ysgol newydd yn adeiladu ar y trefniadau presennol a'n cydlafurio ag ysgolion cynradd mewn clwstwr er mwyn sicrhau cydraddoldeb ar draws y system.</i>
Roedd yna bryderon y byddai ysgol pob oed yn cael effaith niweidiol ar ddisgyblion blwyddyn 6 sydd yn symud o ysgolion cynradd clwstwr gan y byddai disgyblion blwyddyn 6 "Deri View" yn fwy cyfarwydd gyda'r ysgol newydd ac eisoes wedi ffurfio perthynas gref gyda'u cyfoedion?	<i>Rydym yn derbyn y byddai disgyblion oedran cynradd yn yr ysgol newydd yn fwy cyfarwydd gyda'r safle gan mai dyma le y byddant wedi eu lleoli. Fodd bynnag, byddem yn disgwyl bod yr ysgol newydd yn hwyluso cyfleoedd cyson i ddysgwyr o ysgolion cynradd eraill i gyfarwyddo gyda'r ysgol a'r staff fel rhan o drefniant pontio cadarn.</i>
Mynegwyd pryderon bod yna ddarpariaeth annheg rhwng y rhai sydd yn mynychu'r ysgol pob oed a'r rhai sydd yn mynychu ysgolion cynradd eraill sy'n bwydo	<i>Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn golygu bod rhaid i bob ysgol ddatblygu ei chwricwlwm er mwyn diwallu anghenion y dysgwyr a'r gymuned. Mae hyn yn golygu y bydd y ddarpariaeth yn sicr yn wahanol ym mhob ysgol gynradd. Fodd bynnag, mae ysgolion cynradd yn Y Fenni eisoes yn gweithio'n dda gyda'i gilydd. Golyga hyn fod dysgwyr yn yr ysgolion cynradd yma yn medru cael mynediad at brofiadau dysgu cyffredin yn fwy cynnar na'r hyn sydd yn digwydd ar hyn o bryd.</i>
Roedd ymgynghoreion am wybod sut y byddai disgyblion ysgol sydd yn dod o ysgolion clwstwr eraill yn cael eu cefnogi i integreiddio ac alinio gyda'r plant sydd eisoes ar y safle.	<i>Mae ysgolion cynradd yn Y Fenni eisoes yn gweithio'n dda gyda'i gilydd ac mewn partneriaeth gyda'r ysgol uwchradd er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn cael profiad positif wrth symud i Flwyddyn 7. Byddem yn disgwyl bod y cysylltiadau yma yn cael eu cryfhau wrth sefydlu'r ysgol newydd.</i>
Mae ysgolion llai yn helpu adeiladu cymunedau a'n helpu plant i ffynnu mewn amgylchedd dysgu lle y mae rhieni yn gymdogion a staff yn gofalu am y cymunedau y maent yn gwasanaethu. Mae'r holl fudd-ddeiliaid yn buddsoddi yn eu cymunedau.	<i>Bydd yr ysgol newydd yn darparu amgylchedd dysgu sydd yn ymgysylltu ac yn ddigon hyblyg i ddarparu'r ystod lawn o brofiadau dysgu i gynnig y cwricwlwm newydd ac wrth wneud hyn, yn sicrhau bod pob un dysgwr yn cael y cyfle i ddatblygu a ffynnu. Dylid cynnal y berthynas gref sydd yn bodoli rhwng ysgolion, rhieni a'r gymuned, ac os fel y disgwylir, y rhan fwyaf o staff wrth iddynt symud i'r ysgol newydd.</i>

<p>Roedd yna gwestiwn a ydym yn gobeithio y bydd yr ysgol newydd yn gwella'r sefyllfa lle y mae nifer o blant yn symud i ysgolion y tu hwnt i Sir Fynwy</p>	<p><i>Rydym yn disgwyl y bydd yr ysgol newydd, ei staff, y cyfleusterau a'r profiadau dysgu yn annog mwy o ddysgwyr i barhau â'u haddysg yn Sir Fynwy yng Nghyfnod Allwedd 3. Bydd cyfleusterau gwell ar gyfer Ôl-16 yn caniatáu'r ysgol i gynnig ystod eang o gyrsiau ac mae disgwyl i hyn arwain at gynnydd yn y nifer o ddisgyblion sydd yn parhau yn yr ysgol ar gyfer Blynyddoedd 12 a 13, tra'n denu mwy o fyfyrwyr hefyd o sefydliadau eraill.</i></p>
<p>Pa ymchwil a thystiolaeth sydd yno ac wedi eich llywio at y penderfyniad mai dyma'r opsiwn gorau ar gyfer addysg i blant yn Sir Fynwy.</p>	<p><i>Mae'r astudiaeth fwyaf diweddar a pherthnasol ac eithrio'r achosion a wnaed gan awdurdodau lleol yng Nghymru) wedi ei gwblhau gan Brifysgol Abertawe yn 2018. Mae hyn yn nodi nifer o'r cyfleoedd a'r risgiau y mae ysgolion pob oed yn wynebu. Rydym hefyd wedi ystyried amcanion addysgol strategol yr Awdurdod a oedd wedi pennu yn 2017 fod ysgol pob oed yn cynnig cyfle i wneud gwahaniaeth go iawn yn Y Fenni.</i></p>
<p>Mynegwyd pryderon am y cynigion i sefydlu ysgol ganol a sut y bydd hyn yn elwa'r holl blant o fewn y clwstwr.</p>	<p><i>Bydd cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru newydd yn cynnig mwy o ryddid i ysgolion ac ymarferwyr i gynnig ystod fwy eang o brofiadau dysgu a bydd y ddwy ysgol yn medru penderfynu ar yr hyn y maent yn asesu a'n addysgu a'n mesur cynnydd dysgwyr. Bydd dileu'r cyfnodau a'r cyfnodau allweddol yn dileu'r gwahaniaeth rhwng yr hyn sydd yn digwydd rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd. Bydd yr ysgol pob oed mewn sefyllfa gref i benderfynu beth fydd y disgyblion yn dysgu ar draws y continwwm dysgu, yn rhannu arbenigedd ar draws yr ystod o oedran a'n datblygu practis ardderchog. Rydym yn disgwyl y bydd yr ysgol newydd yn rhannu'r arbenigedd yma gyda'r ysgolion cynradd yn y clwstwr er budd yr holl ddysgwyr fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.</i></p>

<b>Thema 8</b>	<b>Barn a dderbyniwyd o ran y strwythur a'r llywodraethiant</b>
<b>Crynodeb o'r sylw / pryder</b>	<b>Ymateb yr ALI</b>
Roedd cais am fanylion ynglŷn â strwythur arwain yr ysgol, pwy fydd yn	Bydd y Llywodraethiant h.y. strwythur ac aelodaeth y Corff Llywodraethu, yn



<p>rhan o'r corff llywodraethu a beth yw'r amserlen ar gyfer hyn?</p>	<p><i>cael ei bennu ar ddiwedd y broses ymgynghori. Bydd hyn yn cael ei gwblhau yn unol gyda rheoliadau priodol Llywodraeth Cymru.</i></p>
<p>Mynegwyd pryder am yr angen amrywiol sydd gan blant drwy'r camau cynnydd sydd yn golygu bod angen ystod eang o sgiliau, gwybodaeth ac ymddygiad o ran yr Uwch Dîm Rheoli ac efallai y bydd y Pennaeth Cynorthwyol yn darganfod hyn yn heriol Beth yw'r cynllun ar gyfer yr Uwch Dîm Rheoli a'r Pennaeth?</p>	<p><i>Bydd yr ysgol, os caiff y newidiadau eu gweithredu, yn meddu ar benaethiaid sengl gydag uwch Dîm Rheoli sydd yn cynnwys unigolion sydd yn gymwys i reoli elfennau gwahanol yr ysgol. Mae'r arweinyddiaeth, y strwythur a'r apwyntiadau, yn fater i'r Corff Llywodraethu a byddant yn cael eu cefnogi gan yr Awdurdod Lleol.</i></p>
<p>Roedd ymgynghoreion wedi gofyn cwestiynau am rôl a chyfrifoldeb y Corff Llywodraethu mewn ysgol pob oed a sut y bydd hyn yn cael ei reoli gan ysgolion ac ALI?</p>	<p><i>Mae rôl y Corff Llywodraethu mewn ysgol pob oed yr un peth ag ydyw mewn ysgol gynradd neu uwchradd. Mae'r Corff Llywodraethu yn gorfod recriwtio ac apwyntio ei aelodau er mwyn sicrhau bod yna gydbwysedd priodol rhwng sgiliau a bywyd.</i></p>
<p>Mae ymgynghoreion yn teimlo nad yw diogelwch y safle yn ddigonol gan fod y Ganolfan Hamdden yn rhannu'r safle ysgol cyfredol. Sut ydych yn mynd i'r afael gyda hyn?</p>	<p><i>Mae'r ysgol newydd yn cynnig y cyfle i wella'r gofod a ddefnyddir rhwng y Ganolfan Hamdden a'r ysgol. Bydd yr holl brosesau dylunio yn cynnwys ystyried unrhyw rwystrau a ffiniau diogelu.</i></p>
<p>Roedd ymgynghoreion am gael mwy o wybodaeth am sut y bydd y pontio rhwng blynyddoedd 6 a 7 yn gweithio ac roeddynt am wybod a oedd yr ALI wedi ystyried ysgol ganolig a sut y byddai hyn yn gweithio? Bydd plant ar draws y clwstwr yn cael profiadau gwahanol iawn.</p>	<p><i>Bydd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn symud i'r ysgol newydd o ysgolion y tu allan i'r ysgol pob oed. Mae yna hanes cryf o gydlafurio ymhlith ysgolion clwstwr yn Sir Fynwy. Mae hyn wedi arwain at lwyddiant aruthrol o ran hyrwyddo dysgu a datblygu sgiliau yn yr ysgolion cynradd a gwella pa mor barod yw'r disgyblion ar gyfer yr ysgolion uwchradd.</i></p>
<p>Gofynnwyd am eglurhad o ran cyllideb yr ysgol yn ystod y cyfnod pan fydd yr ysgolion yn cau ond heb eu lleoli ar yr un ysgol.</p>	<p><i>Ar gyfer y flwyddyn gyntaf pan fydd yr ysgol 'newydd' yn weithredol ond bod y ddwy elfen dal ar safleoedd gwahanol cyn cael eu cyd-leoli yn 2024, bydd Corff Llywodraethu'r ysgol 'newydd' yn gyfrifol am y gyllideb ar y ddau safle. Bydd yr Awdurdod Lleol yn gweithio'n agos gyda'r ysgol er mwyn sicrhau bod y cyllidebau yn trosglwyddo a bod modd delio ag unrhyw arian dros ben neu ddiffygion.</i></p>
<p>Mynegwyd pryderon am y strwythur o gael ysgol ganol pan na fydd y rhan fwyaf o ddisgyblion oedran Cynradd yn rhan o'r ysgol newydd. Sut y bydd y disgyblion ysgol gynradd mewn ysgolion eraill yn cael eu cefnogi er mwyn</p>	<p><i>Rydym yn credu y bydd yr ysgol ganol yn ased gwerthfawr i'r ysgol wrth ddatblygu'r cynnig newydd ar gyfer Cwricwlwm Cymru. Bydd gweithredu a rheoli hyn yn ystyriaeth ar gyfer ys ysgol newydd o fewn ystod oedran pob oed.</i></p>

sicrhau cydraddoldeb a pha gymorth a fydd ar gael ar gyfer ysgolion gwledig bach.	<i>Fel sydd wedi ei nodi uchod, bydd yr holl ysgolion yn parhau i weithio'n agos iawn gyda'r holl ysgolion ar draws y clwstwr a bydd hyn yn helpu gyda'r pontio i flwyddyn 7. Bydd plant sydd yn symud o ysgolion eraill yn profi dwy flynedd o ysgol ganol.</i>
Mynegwyd barn y dylid cadw'r strwythur rheoli presennol gan ei fod yn llwyddiannus iawn	<i>Byddem yn awgrymu fod arweinyddiaeth yr ysgol wedi bod yn llwyddiannus iawn. Fodd bynnag, mae modd gwneud gwelliannau a datblygiadau drwy'r amser a bydd y cydweithredu o fewn ysgol pob oed yn cynnig mwy o gyfleoedd i ddysgwyr i ddatblygu eu sgiliau.</i>
Gofynnwyd cwestiwn ynglŷn ag a fydd Athrawon Cynradd angen addysg ym mhob maes o'r ysgol ganol	<i>Bydd yr ysgol ganol o bosib yn cynnwys disgyblion ym mlynnyddoedd 5-8. Byddai athrawon fel arfer yn gweithio hyd at flwyddyn 6 fel rhan o'r drefn arferol. Mae'r cwricwlwm newydd yn cynnig y cyfle i newid dulliau ym mlynnyddoedd 7 a 8. Bydd hwn yn fater i'r ysgol a'r Corff Llywodraethu newydd ei ystyried.</i>
Mynegwyd pryder y byddai'r plant Ysgol Gynradd yn colli'r cysylltiad personol sydd ganddynt gyda'r Penaethiaid ar hyn o bryd	<i>Bydd dysgwyr yn cael y cyfle i wneud cysylltiadau cryf gyda nifer o oedolion ar draws yr ysgol, o'r athrawon dosbarth, cynorthwywyd dysgu a phenaethiaid y cyfnodau gwahanol. Er nad oes modd i ni wneud sylw am rôl y Pennaeth, rydym yn sicr y bydd arweinydd yr ysgol yn meithrin cysylltiadau gyda'r holl ddygwyr.</i>

<b>Thema 9</b>	<b>Barn a dderbyniwyd o ran y cynnig</b>
<b><i>Crynodeb o'r sylw / pryder</i></b>	<b><i>Ymateb yr ALI</i></b>
Mynegwyd pryder pam ei fod wedi cymryd cyn hired i gyrraedd y pwynt hwn os yw Ysgol Brenin Harri'r VIII mewn cyflwr mor druenus	<i>Gwnaed y penderfyniad i ddisodli Ysgol Brenin Harri'r VIII gydag ysgol pob oed yn Y Fenni yn Hydref 2017. Yn y cyfamser, rydym wedi adeiladu ysgol newydd yn Nhrefynwy a Chil-y-coed ac wedi gweithio drwy'r pandemig Covid-19. Mae ychydig o waith wedi ei wneud er mwyn sicrhau'r seilwaith a'r amgylchedd dysgu o fewn yr ysgol.</i>
Gofynnwyd cwestiwn am y penderfyniad i gynnwys Ysgol Gynradd Deri View yn y broses. Pam na chynnwys un o'r ysgolion eraill yn y clwstwr neu adeiladu ysgol gynradd newydd?	<i>Roeddem wedi adolygu'r holl ysgolion yn Y Fenni. Ni Llandeilo Bertholau gan fod mai ysgol Eglwys yng Nghymru yw hon. Mae 'Our Lady and St. Michaels' yn ysgol Gatholig a dim ond Cantref a Deri View sydd ar ôl fel ysgolion cymunedol sydd o bosib eu cyfuno</i>

	<p><i>gyda'r ysgol uwchradd er mwyn creu ysgol pob oed newydd.</i></p> <p><i>Rhan allweddol o'r cynnig yw ehangu addysg gynradd cyfrwng Cymraeg yn yr ardal, ac ni fyddai cyfuno Cantref yn caniatáu ni ehangu addysg cyfrwng Cymraeg. Mae cynnwys Deri View yn medru hwyluso cynnydd yng nghapasiti Sir Fynwy i gynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg.</i></p> <p><i>Nod y rhaglen hefyd oedd buddsoddi mewn darpariaeth addysgol a chynnydd ein dysgwyr sydd o dan yr anfantais fwyaf. Rydym yn credu y bydd yr ysgol pob oed yn cynnig manteision sylweddol i'r grŵp yma o ddysgwyr.</i></p>
<p>Roedd yna farn fod Ysgol Gynradd Deri View yn ei sefyllfa orau erioed, gyda thîm rheoli cryf, staff ardderchog a theuluoedd bregus yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi. Mae cau a symud i ysgol newydd yn teimlo fod yn rhaid dechrau eto.</p>	<p><i>Mae Ysgol Gynradd Deri View wedi datblygu'n dda yn y blynyddoedd diwethaf ac mae hyder gan yr awdurdod lleol yn yr arweinyddiaeth. Fodd bynnag, rydym dal yn credu fod yna botensial i ddatblygu'r ddarpariaeth sydd yn cael ei chynnig i'r ardal hon o'r Fenni. Rydym yn cydnabod fod llesiant wedi bod yn nodwedd sylweddol dros y 18 mis diwethaf ond mae angen cyson hyn gyd ffocws cryf ar addysgu a dysgu.</i></p>
<p>Roedd yna gwestiwn ynglŷn â pham nad ydym yn ceisio cynyddu'r capasiti ymhlith ysgolion lle mae gormod o blant am eu mynychu, yn hytrach nag adeiladu adeilad newydd a mwy. Mae llawer o dai yn cael eu hadeiladu mewn ardaloedd fel Llan-ffwyst a Gilwern and Gofilon lle mae yna ormod o blant am ymuno gyda'r ysgolion yma. A fydd angen i'r plant yma fynd i'r ysgol newydd?</p>	<p><i>Rydym wedi adolygu ein meini prawf o ran mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael a fydd yn caniatáu plant i fynychu eu hysgolion lleol. Rydym dal yn wynebu materion hanesyddol sydd wedi eu hachosi gan yr hen feini prawf. Rydym wedi cymryd camau i ehangu'r adeilad yn Ysgol Gilwern.</i></p> <p><i>Mae capasiti'r ysgol newydd wedi ei gyfrif ac yn seiliedig ar ein dealltwriaeth o'r nifer o enedigaethau byw yn y dalgylch a'r datblygiad tai yn yr ardal.</i></p>
<p>Roedd yna bryder na fyddai materion o ran stigma / cysyniadau o Ysgol Gynradd Deri View yn diflannu drwy ail-leoli'r ysgol i safle newydd.</p>	<p><i>Nid ydym yn creu y dylai fod yna unrhyw stigma o ran Ysgol Gynradd Deri View. Rydym yn credu y bydd yr ysgol pob oed newydd yn cynnig darpariaeth addysgol gyffrous yn Y Fenni ac yn adeiladu ar waith Ysgol Gynradd Deri View ac Ysgol Brenin Harri'r VIII.</i></p>
<p>Roedd yna farn y dylid adeiladu'r ysgol uwchradd newydd fel yr hyn sydd wedi digwydd ar gyfer Cil-y-coed a Threfynwy ac nid creu ysgol pob oed. Ymddengys nad yw hyn wedi ei ystyried fel opsiwn yn y ddogfen ymgynghori.</p>	<p><i>Ystyriwyd hyn fel opsiwn yn 2017 pan oedd Cabinet Cyngor Sir Fynwy wedi adnewyddu ei Rhaglen Amlinelliad Strategol Ysgolion 21ain Ganrif.</i></p> <p><i>Ni chafodd hyn ei ystyried fel yr opsiwn a ffeirir gan nad oedd yn cynnig y manteision a gynigir gan ysgol pob oed. Mae'r manteision yma wedi eu</i></p>



	<i>hamlinellu mewn mannau eraill o'r ddogfen.</i>
Roedd yna farn fod y cynnig yn cynnig llawer o fanteision i Ysgolion Brenin Harri, Deri View ac Ysgol Gymraeg Y Fenni ac yn ased go iawn i'r dref.	<i>Rydym yn cytuno fod hwn yn gynnig blaengar a fydd yn elwa'r dysgwyr yn Y Fenni.</i>
Mynegwyd barn y dylid buddsoddi arian mewn meysydd eraill, fel creu ysgol arbennig ar gyfer TGAU a Lefel A.	<i>Rydym yn credu fod yr hyn sydd wedi ei gynnig yn yr ymgynghoriad yn cynrychioli'r gwerth gorau am arian. Bydd yr ysgol pob oed yn darparu continwwm o ddysgu ar gyfer disgyblion fel bod yr holl fyfyrwyr yn sicrhau eu bod yn rhagori o ran TGAU a Lefel A.</i>
Gwnaed cais i'r Awdurdod Lleol i ailystyried ei gynnig i ddatblygu ysgol pob oed gan nad ydynt wedi llwyddo mewn achosion eraill Roedd yna bryderon nad yw ysgolion pob oed yn llwyddo, ac ni fyddai'n elwa plant gyda nifer o ysgolion eraill heb orfod mabwysiadu'r fath strwythur.	<i>Rydym wedi gweld enghreifftiau o ysgolion pob oed sydd wedi bod yn llwyddiannus iawn. Tra ein bod yn cydnabod fod rhai heriau mewn rhai ysgolion pob oed, rydym yn credu fod adeiladu ar yr ymchwil addysgu o fewn y system addysg yng Nghymru yn medru sicrhau bod Ysgol Y Fenni yn llwyddiant.</i>
Roedd yna ddiffyg hyder o ran y manteision y bydd yr ysgol pob oed yn cynnig i'r gymuned. Bydd plant sydd yn mynychu ysgolion o fewn y clwstwr o dan anfantais.	<i>Nid ydym yn cydnabod hyn. Bydd yr holl ysgolion yng nghlwstwr Y Fenni yn elwa o'r berthynas ardderchog rhwng y sector cynradd a'r ysgol uwchradd. Bydd cyflwyno'r ysgol ganol yn helpu delio gyda rhai o'r heriau yma. Bydd y ddarpariaeth newydd yn darparu manteision ychwanegol i gymuned ehangach Y Fenni.</i>
Roedd yna bryder fod ysgolion pob oed yn rhy fawr. Mae safon y dysgu a'r addysgu wedi dioddef mewn enghreifftiau eraill a bydd yr ymdeimlad o gymuned yr ysgol yn cael ei golli.	<i>Bydd yr ysgol pob oed yr un maint â'r ysgol uwchradd yn Sir Fynwy. Nid ydym yn credu fod maint yr ysgol yn effeithio ar ansawdd yr addysgu a dysgu. Bydd amgylchedd dysgu gwell a'r cyfle i ddatblygu dulliau ardderchog tuag at werthuso a gwella'r ysgol drwy ddysgu ac addysgu gwell.</i>
Roedd yna gwestiwn ynglŷn â'r rhesymau pam nad oes ysgolion pob oed wedi eu datblygu yn Nhrefynwy a Chil-y-coed os yw'r awdurdod mor hyderus yn y model yma.	<i>Mae'r sefyllfa a'r amgylchedd yn Y Fenni yn caniatáu'r Awdurdod i ystyried datrysiadau gwahanol yn Y Fenni, o'i gymharu gyda Chil-y-coed a Threfynwy. Mae'r agosatrwydd at Ysgol Deri View, y dyhead i wneud newidiadau systematig er mwyn darparu darpariaeth well i'm dysgwyr difreintiedig a rhoi'r cyfle i'r ysgol Gymraeg i ehangu oll yn caniatáu Cabinet Sir Fynwy i ddewis model gwanhaol i'r Fenni.</i>
Roedd barn fod y cynnigion wedi ei llunio am resymau ariannol yn unig.	<i>Mae'r cynnig yn cynnwys cost cyfalaf uwch. Ni fydd yna newid o ran y gost cyfalaf sydd yn gysylltiedig gyda'r ysgol. Nid yw hwn yn gynnig a fydd yn</i>

	<i>sicrhau manteision ariannol i'r Awdurdod ac ni chafodd ei gyflwyno fel model a fyddai'n arbed arian. Rydym yn gobeithio y bydd yna gynnis i wneud yr ysgol yn fwy effeithlon.</i>
Roedd barn fod y cynigion i ddatblygu ysgol pob oed yn caniatáu mwy o gymorth a chynnydd o ran datblygiad cymdeithasol, emosiynol ac addysgol y plant.	<i>Mae hwn wedi bod yn ystyriaeth allweddol i'r Awdurdod wrth greu a datblygu'r prosiect. Mae cyflwyno Canolfan Adnoddau Anghenion Arbennig a fydd yn gweithredu ar lefel pob oed yn dystiolaeth bellach o'n hymroddiad i ddarparu cymorth di-dor i ddysgwyr.</i>
Roedd yna bryder fod y nifer o lefydd ysgolion uwchradd yn dirywio mewn ardal lle y mae datblygiadau tai yn cynyddu	<i>Rydym wedi ystyried maint y safle yn ofalus gan roi ystyriaeth i'r holl ddatblygiadau tai sydd yn Y Fenni a'n cydnabod y niferoedd cynyddol sydd yn dymuno mynychu Ysgol Brenin Harri'r VIII.</i>
Roedd yna gwestiwn am lefel yr ymchwil a oedd wedi ei gynnal sydd yn dangos fod ysgol pob oed yn medru bod yn llwyddiant. Nid yw hyn yn ffurfio rhan o'r ddogfen ymgynghori.	<i>Rydym yn hyderus fod y dystiolaeth ar gyfer y manteision a ddaw o ysgol pob oed yn cefnogi ein cynnis. Rydym yn cynnis mwy o fanylder yn ein hadroddiad ymgynghori.</i>
Roedd yna gwestiwn ynglŷn â sut y mae'r ffigyrau twf wedi eu cyfrif er mwyn cyfiawnhau'r ysgol. Gyda chynifer o bethau'n ansicr am botensial twf tai yn yr ardal, a fydd yr ysgol newydd yn meddu ar yr hyblygrwydd i gynyddu o ran maint.	<i>Mae'r Awdurdod ond yn medru cynllunio ar gyfer y nifer o lefydd yn yr ysgol gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd gennym. Mae hyn yn seiliedig ar yr holl ddatblygiadau tai sydd yn rhan o'r system gynllunio. Bydd maint y safle yn cyflwyno rhai heriau o ran ehangu yn y dyfodol.</i>
Heb wybodaeth am ysgolion pob oed, roedd yna bryder ynglŷn â pha mor llwyddiannus ydynt ac a fydd yn hyn dylanwadu ar y penderfyniad i fwrw ymlaen gyda'r cynnis ai peidio.	<i>Fel sydd yn digwydd gyda'r holl gynigion, rydym yn derbyn tystiolaeth o ystod o ffynonellau.</i>
Roedd yna gwestiwn am ddalgylch yr ysgol newydd, yn enwedig ymhlith rhai sydd yn byw yn ardaloedd Gilwern a Llan-ffwyst	<i>Bydd yna adolygiad o'r dalgylch ar gyfer ardal Y Fenni ar ôl i'r broses ymgynghori ddod i ben.</i>

<b>Thema 10</b>	<b>Barn a dderbyniwyd o ran enw'r ysgol newydd</b>
<b><i>Crynodeb o'r sylw / pryder</i></b>	<b><i>Ymateb yr ALI</i></b>
Roedd yna bryderon ynglŷn ag enw'r ysgol newydd a sut y byddai'r enw'n cael ei ddewis?	<i>Bydd Cyngor Sir Fynwy yn dewis enw'r ysgol. Bydd unrhyw newidiadau o ran enw'r ysgol yn cael ei drafod gyda Swyddfa'r Goron a fydd yn gofyn am ganiatâd gan Ei Mawrhydi'r Frenhines.</i>
Gan y sefydlwyd Ysgol Brenin Harri'r VIII gan <i>Letters Patent</i> , a oes angen	<i>Mae'r Letters Patent ond yn cyfeirio at enw'r ysgol.</i>

dilyn proses gyfreithiol er mwyn cau'r ysgol?	
Mae yna ddau fwsari yn gysylltiedig gydag Ysgol Brenin Harri'r VIII y mae modd gwneud cais amdanynt. Os yw'r ysgol yn cau, a fyddwn yn colli'r rhain?	<i>Mae'r Adran Gyfreithiol yn edrych ar y bwrsari.</i>

Thema 11	Barn a dderbyniwyd o ran y Broses Ymgynghori
<b><i>Crynodeb o'r sylw / pryder</i></b>	<b><i>Ymateb yr ALI</i></b>
<p>Mynegwyd pryderon am y broses ymgynghori, pam ei fod yn cymryd cyn hired, pa benderfyniadau sydd ar ôl i'w gwneud, nid oes digon o fanylder yn y ddogfen ymgynghori ac mae yna ddiffyg gwybodaeth, a gyda phwy y mae'r ALI wedi ymgynghori?</p>	<p><i>Mae'r cynigion sydd yn rhan o'r ymgynghoriad yn gorfod dilyn proses statudol sydd wedi ei hamlinellu yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (Tachwedd 2018).</i></p> <p><i>Mae Adran 2 o'r ddogfen ymgynghori yn cadarnhau'r broses ymgynghori sydd angen ei dilyn, sydd wedi ei hamlinellu er mwyn cydymffurfio gyda'r cod uchod.</i></p> <p><i>Y cam cyntaf o'r broses yma yw'r ymgynghoriad, ac mae'n gyfle i ni ofyn am farn ymgynghoreion ar ein cynigion. Rhaid cynnal yr ymgynghoriad am 6 wythnos o leiaf; fodd bynnag, roeddem wedi ymestyn y cyfnod hwn o ddwy wythnos yn sgil yr heriau a achoswyd gan y Pandemig Covid 19.</i></p> <p><i>Ail ran y broses statudol yw y bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried yr adborth a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori o'r broses er mwyn pennu'r camau nesaf. Os yw'r Cabinet yn penderfynu peidio â bwrw ymlaen, bydd y broses statudol yn dod i be. Os yw'r Cabinet yn dymuno parhau gyda'r cynigion, bydd hysbysiadau statudol yn cael eu cyhoeddi a'r ymgynghoreion yn derbyn 20 diwrnod i wrthwynebu'n ffurfiol i'r cynigion sydd yn cael eu gweithredu.</i></p> <p><i>Mae trydedd ran y broses ymgynghori yn arwain at y Cabinet yn ail-ymgynnull er mwyn ystyried unrhyw wrthwynebiad statudol a dderbyniwyd ar ôl cyhoeddi'r hysbysiadau statudol. Dyma ran olaf y broses lle y bydd y Cabinet yn gwneud penderfyniad ynglŷn ag a ddylid gweithredu'r cynigion ai peidio.</i></p>

	<i>Mae rhestr lawn o'r ymgynghoreion ar gael o fewn y ddogfen ymgynghori o dan atodiad 1</i>
Sut ydych yn sicrhau bod teuluoedd bregus wedi cael y cyfle i wneud sylw ar y cynigion?	<p><i>Cynhaliwyd y broses ymgynghori yn ystod pandemig byd-eang ac mae hyn wedi herio'r modd yr ydym wedi ymgysylltu gyda'r gymuned.</i></p> <p><i>Yn ystod y broses ymgynghori, mae'r Cyngor wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau ar-lein er mwyn caniatáu ymgynghoreion statudol i ddysgu mwy am y cynigion a rhannu unrhyw gwestiynau a phryderon ag uwch swyddogion yr awdurdod lleol a'r aelod Cabinet dros addysg.</i></p> <p><i>Gan gydnabod nad oedd y sesiynau ymgysylltu ar-lein o reidrwydd yn mynd i ymgysylltu gyda theuluoedd bregus, roedd swyddogion wedi trefnu sesiynau yn gymuned ac yn Ysgol Gynradd Deri View ac Ysgol Uwchradd Brenin Harri'r VIII.</i></p>
Mynegwyd pryderon ynglŷn â sut yr ymgynghorwyd gyda'r gymuned ehangach, sut oedd y digwyddiadau ymgynghori wedi eu hyrwyddo?	<p><i>Roedd y Cyngor wedi trefnu nifer o sesiynau ymgysylltu ar-lein ac ar y safle gydag ymgynghoreion. Roedd hyn wedi rhoi'r cyfle iddynt ddeall mwy am ein cynigion, gofyn cwestiynau a rhannu unrhyw sylwadau neu bryderon am ein cynigion.</i></p> <p><i>Marchnatwyd yr holl ddigwyddiadau ymgynghori ar wefan y Cyngor a'r tudalennau cyfryngau cymdeithasol. At hyn, rhoddwyd gwybod i'r ymgynghoreion statudol am fanylion y digwyddiadau yma. Roedd ysgolion o fewn y clwstwr wedi rhannu eu gwybodaeth drwy eu sianeli cyfathrebu gyda rhieni a gofalwyr.</i></p>

<b>Thema 12</b>	<b>Effaith ar ddarpariaeth ôl-16</b>
<b><i>Crynodeb o'r sylw / pryder</i></b>	<b><i>Ymateb yr ALI</i></b>
Os yw plant wedi bod mewn un ysgol ers yn 3 mlwydd oed, a ydych yn credu bod yna risg o'u colli i sefydliad addysg arall pan eu bod yn 16?	<p><i>Mae'r dewis a wneir gan fyfyrwyr o ran darpariaeth ôl-16 yn cael ei ddylanwadu gan nifer o ffactorau, gan gynnwys yr ystod o gyrsiau sydd ar gael, mynediad at adnoddau a'r amgylchedd ar gyfer dysgu.</i></p> <p><i>Bydd yr ysgol newydd yn meddu ar y capasiti i gynnig ystod eang o gyrsiau er mwyn cwrdd ag ystod ehangach o ofynion myfyrwyr mewn amgylchedd dysgu sydd yn briodol.</i></p>



Mae yna bryder am gyllid ôl-16, a ydych yn credu fod yna risg ychwanegol o gyrsiau galwedigaethol ac academaidd yn cael effaith negatif ar gadw disgyblion yn yr ysgol?	<i>Mae cyllid ôl-16 yn cael ei bennu gan Lywodraeth Cymru. Mae ysgol sydd yn cynnig cyrsiau academaidd a galwedigaethol yn medru cadw mwy o blant gan fod yna ystod ehangach o gyrsiau ar gael iddynt.</i>
Beth fydd yn digwydd i adeiladau eraill CSF sydd yn cael eu defnyddio ar gyfer Addysg i Oedolion, petai'r cynnig hwn yn cael ei weithredu?	<i>Rydym yn credu y bydd adeilad yr ysgol newydd yn cynnig cyfle sylweddol ar gyfer ystod o grwpiau cymunedol. Byddwn yn gweithio gyda'r cydweithwyr ar draws Sir Fynwy er mwyn sicrhau nad yw hyn yn ansefydlogi pethau.</i>
Beth fydd y strwythur ar gyfer y sawl sydd yn cymryd TGAU a'r rhai sydd yn cymryd cyrsiau AS/galwedigaethol? Beth fyddai'n digwydd os yw'r holl fyfyrwyr yma yn cael eu dysgu gyda'i gilydd?	<i>Bydd yr ysgol yn penderfynu ar y strwythur ar gyfer cyrsiau arholiad. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd cyrsiau TGAU ac AS/ Galwedigaethol yn cael eu dysgu i'r un myfyrwyr ar yr un pryd.</i>

<b>Thema13</b>	
<b>Effaith ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg</b>	
<b>Crynodeb o'r sylw / pryder</b>	<b>Ymateb yr ALI</b>
Os nad yw'r adeilad yn Deri View yn cwrdd â'r safonau newydd, a yw'n iawn bod Ysgol Y Fenni yn symud i mewn i'r ardal ac a fydd hyn yn cael ei ddatrys cyn eu bod yn symud?	<p><i>Os mai canlyniad y broses statudol hon yw gweithredu'r cynnig am ysgol pob oed, yna bydd Ysgol Gymraeg Y Fenni yn symud i safle presennol Ysgol Gynradd Deri View. Bydd hyn yn rhan o broses ymgynghori ar wahân.</i></p> <p><i>Mae'r Cyngor wedi neilltuo arian penodol er mwyn gwneud gwelliannau i adeilad Ysgol Deri View er mwyn sicrhau y byddai Ysgol Gymraeg Y Fenni yn medru symud i adeilad sydd yn addas i'r diben.</i></p>
Gan nad oes yna ffrwd iaith Gymraeg, a fydd yna ddarpariaeth dal ar gael i ddysgwyr Cymraeg uwchradd?	<p><i>Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr cyfrwng Cymraeg uwchradd yn cael ei hwyluso ar hyn o bryd yn Ysgol Gyfun Gwynllyw, a bydd hyn yn parhau os ydym yn gweithredu'r cynigion yma.</i></p> <p><i>Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu darpariaeth cyfrwng Cymraeg mwy lleol, ac rydym yn gobeithio datblygu'r cynnig yma fel rhan o raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif (Band C).</i></p>
Beth fydd yn digwydd i safle Ysgol Gymraeg Y Fenni?	<i>Nid oes yna benderfyniad wedi ei wneud ar ddyfodol safle Ysgol Gymraeg Y Fenni. Byddai symud Ysgol Gymraeg Y Fenni i safle presennol Ysgol Gynradd Deri View yn rhan o ymgynghoriad ar wahân.</i>

A fydd yna ormod o gapasiti yn yr ardal gydag Ysgol Cyfrwng Cymraeg ac Ysgol Cyfrwng Saesneg?	<i>Mae cyfrifoldeb gan y Cyngor i sicrhau bod nifer ddigonol o lefydd Cyfrwng Saesneg a Chyfrwng Cymraeg. Mae'r cynigion sydd yn rhan o'r ddogfen ymgynghori yn ddigonol o ran y tueddiadau cyfredol a'r rhagolygon sydd gennym tra'n caniatáu bod modd i'r sector cyfrwng Cymraeg i ehangu yn ôl y gofyn.</i>
-----------------------------------------------------------------------------------------------	----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

<b>Thema 14</b>		<b>Effaith ariannol</b>
<b>Crynodeb o'r sylw / pryder</b>		<b>Ymateb yr ALI</b>
Mynegwyd pryderon ynglŷn ag a yw'r Cyngor yn medru fforddio hyn?	<i>Bydd y Cyngor yn ystyried fforddiadwyedd y prosiect pan yn ystyried yr Achos Busnes Llawn. Rydym wedi gweithio'n agos gyda'n cydweithwyr yn y tîm Cyllid Corfforaethol ac yn ymwybodol o'r pwysau ariannol a'r pwysau cyfredol o ran costau.</i>	
Beth os yw Llywodraeth Cymru yn gwrthod rhoi arian?	<i>Rydym yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ac yn dryloyw o ran rhannu'r gost ac unrhyw gostau ychwanegol sydd yn bosib.</i>	
Pam nad ydych yn defnyddio'r arian hwn er mwyn cadw cynifer o ysgolion ag sydd yn bosib ar agor?	<i>Ni fydd yna fantais 'ariannol' yn gysylltiedig gyda'r cynnig ac nid dyma pam ein bod yn cynnig y prosiect. Ni fydd cyfuno Brenin Harri'r VIII a Deri View yn mynd i arwain at unrhyw fanteision ariannol.</i>	

### 6.3 Sylwadau / pryderon penodol a nodwyd gan Ysgol Uwchradd Brenin Harri'r VIII

Roedd y Cyngor wedi cynnal sesiynau ymgysylltu penodol gyda staff, llywodraethwyr, rheini a disgyblion yn Ysgol Uwchradd Brenin Harri'r VIII ac mae'r adborth wedi ei gynnwys yn adran 6.2 o'r adroddiad hwn.

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon allweddol a nodwyd drwy gyfrwng ymateb ffurfiol yr Ysgol i'r ymgynghoriad hwn:

<b>Crynodeb o'r pryderon a nodwyd</b>
Roedd yr ymateb a dderbyniwyd gan Gorff Llywodraethu Ysgol Uwchradd Brenin Harri'r VIII yn cadarnhau eu cefnogaeth tuag at sefydlu ysgol pob oed, drwy uno Ysgol Uwchradd Brenin Harri'r VIII gydag Ysgol Gynradd Deri View. Roedd y Corff Llywodraethu wedi ei gyffroi gan y cynigion a fyddai'n rhoi cyfleusterau rhagorol i'r gymuned.

Fodd bynnag, roedd yna ddau bryder penodol a nodwyd gan y Corff Llywodraethu yn ystod yr ymgynghoriad:

1. Roedd yna farn gref iawn y dylid cadw enw'r ysgol fel Ysgol Uwchradd Brenin Harri'r VIII yn sgil y cyd-destun hanesyddol a'r cysylltiad gyda thref Y Fenni
2. Gwnaed cais fod yr awdurdod lleol yn ail-ystyried y cynnig i sefydlu meithrinfa nas cynhelir, ac yn darparu mwy o wybodaeth am fanteision ac anfanteision pob un opsiwn, gan ystyried y mewnbwn pwysig gan rieni a staff Ysgol Gynradd Deri View cyn cyflwyno cynnig ar gyfer ei weithredu.

## Ymateb yr Awdurdod Lleol

### 1. Enw'r ysgol newydd

Mae enw'r ysgol newydd yn thema allweddol sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod y broses ymgynghori. Mae'r Cyngor yn cydnabod y sylwadau a wneir gan y Corff Llywodraethu a'r ymgynghoreion eraill ynglŷn ag enw'r ysgol newydd. Mae'r broses statudol yn ffocysu ar yr egwyddorion sydd yn rhan o'r cynnig i greu ysgol pob oed ar safle Ysgol Uwchradd Brenin Harri'r VIII. Bydd unrhyw benderfyniad a wneir am enw'r ysgol yn rhan o broses ar wahân unwaith ein bod wedi penderfynu a fyddwn yn bwrw ymlaen gyda'r cynigion sydd wedi eu hamlinellu yn yr ymgynghoriad.

### 2. Darpariaeth blynyddoedd cynnar

Mae'r Cyngor wedi ymgynghori ar gynigion ar gyfer darparu'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar mewn lleoliad nas cynhelir, yn rhan o'r un safle sydd yn cynnwys yr ysgol pob oed. Roedd y ddarpariaeth blynyddoedd cynnar yn bryder sylweddol i nifer drwy gydol y broses ymgynghori ac yn ymddangos o dan adran 6.2 (thema 1) o'r adroddiad lle y mae'r pryderon wedi eu crynhoi ynghyd ag ymateb y Cyngor i'r pryderon yma.

Mae'r Cyngor yn parhau i gredu bod y model nas cynhelir yn fodel sydd yn gweithio'n llwyddiannus ar hyd a lled y sir ac yn cynnig lefelau cynyddol o hyblygrwydd er mwyn cefnogi teuluoedd gyda'u gofal plant. Fodd bynnag, rhaid i ni ystyried hefyd yr adborth sydd wedi ei dderbyn yn ystod yr ymgynghoriad er mwyn llywio'r broses o wneud penderfyniad ar y cam nesaf yn y broses.

## 6.4 Sylwadau / pryderon penodol a nodwyd gan Ysgol Gynradd Deri View

Roedd y Cyngor wedi cynnal sesiynau ymgysylltu penodol gyda staff, llywodraethwyr, rheini a disgyblion yn Ysgol Gynradd Deri View ac mae'r adborth wedi ei gynnwys yn adran 6.2 o'r adroddiad hwn.

## Crynodeb o'r pryderon a nodwyd

Roedd yr ymateb a dderbyniwyd gan Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Deri View yn cadarnhau eu cefnogaeth tuag at yr agweddau canlynol o'r cynnig i sefydlu ysgol pob oed:

1. Yr angen i wella'r ddarpariaeth addysgol yn Y Fenni drwy gyfrwng gwella'r amgylchedd dysgu ar gyfer dysgwyr oedran uwchradd
2. Y dyhead i gynyddu argaeledd darpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy ddefnyddio'r cyfleusterau yn Ysgol Gynradd Deri View.
3. Cynyddu'r nifer o bobl ifanc yn Sir Fynwy sydd yn aros yn y sir ar gyfer eu profiadau addysg.

Fodd bynnag, mae'r Corff Llywodraethu drwy gydol y broses ymgynghori, wedi rhannu'r pryderon canlynol:

1. Roedd y corff llywodraethu yn credu'n gryf y dylai'r ddarpariaeth ar gyfer plant blynyddoedd cynnar ffurfio rhan o'r cynnig am ysgol pob oed, ac yna'n caniatáu bod modd rheoli addysg a llesiant yn cael eu rheoli'n llawn gan yr ysgol newydd a'r corff llywodraethu, yn hytrach na gan ddarparwr preifat. Mae yna bryderon nad oes yna dystiolaeth wedi ei chyflwyno sydd yn awgrymu y byddai plant a'u teuluoedd yn elwa mwy o ddarparwr preifat ond roedd yna ymdeimlad y byddai'r plant o dan anfantais yn sgil y cynigion presennol.
2. Roedd yna bryder bod modd dehongli cynigion yr ymgynghoriad gan rai o aelodau'r gymuned fod Ysgol Gynradd Deri View yn ysgol sydd yn methu. Mae yna gysyniad nad yw'r adeilad yn addas i'r diben ond teimlwyd nad yw hyn yn adlewyrchiad o berfformid yr ysgol a gwnaed cais fod angen sicrhau bod llawer o'r gefnogaeth, y canlyniadau ar ddarpariaeth yn Deri View yn cael eu haildrodd mewn unrhyw ddarpariaeth newydd.
3. Teimlai'r Corff Llywodraethu yn ansicr ynglŷn â'r buddion addysgol a ddaw o ysgol pob oed, gan fod y canlyniadau yn Deri View yn dda ac yn parhau i wella.
4. Roedd yna bryder nad yw lleoliad yr ysgol newydd yng nghanol Cymuned Deri View, lle y mae'r rhan fwyaf o blant yn cerdded i'r ysgol a theimlai'r llywodraethwyr bod angen teithio'n bellach i'r ysgol newydd.
5. Roedd Llywodraethwyr yn poeni am y trefniadau pontio sydd yn rhan o'r cynigion o ran sefydlu ysgol ganol, a fyddai'n golygu plant o ysgolion eraill yn ymuno gyda'r ddarpariaeth ar adegau hwy.
6. Teimlai Llywodraethwyr fod staff angen eu cefnogi drwy gyhoeddi proses yn gynnar sydd yn esbonio sut y byddent yn trosglwyddo i'r ysgol newydd.
7. Roedd Llywodraethwyr yn poeni nad yw enw'r ysgol newydd wedi ei drafod mewn unrhyw fanylder a bod y cynnig i sefydlu ysgol "newydd" yn cael ei danseilio os cedwir yr enw Brenin Harri.

## Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae Swyddogion yr Awdurdod Lleol wedi bod yn hapus iawn i weithio'n agos gyda'r Corff Llywodraethu a'r staff yn Ysgol Gynradd Deri View yn ystod y broses o baratoi ar gyfer yr ymgynghoriad ac fel rhan o'r broses ymgynghori. Fodd bynnag, rydym yn croesawu ymateb ffurfiol y Corff Llywodraethu i'r ymgynghoriad hwn.



Yn ystod y broses ymgynghori, roedd swyddogion wedi cynnal sesiynau ymgysylltu gyda'r Corff Llywodraethu, staff a rhieni yn Ysgol Gynradd Deri View. Yn ystod y sesiynau yma, ymddengys fod yna gefnogaeth gyffredinol tuag at yr egwyddorion yn y cynnig ond roedd yna bryderon sydd angen eu hadlewyrchu yn y broses o wneud penderfyniadau. Mae'r pryderon yma wedi eu hadlewyrchu yn ymateb ffurfiol y Corff Llywodraethu i'r ymgynghoriad hwn.

### 3. Darpariaeth addysg gynnar

Mae'r Corff Llywodraethu, staff a rhieni wedi mynegi barn gref ynglŷn â'r ddarpariaeth addysg gynnar o fewn yr ysgol arfaethedig newydd gan ddweud y dylai'r ddarpariaeth fod yn un a gynhelir, gan olygu y byddai'r ddarpariaeth yn cael ei rheoli'n uniongyrchol gan y Corff Llywodraethu a staff yr ysgol.

Mae'r Cyngor wedi ymgynghori ar gyfer y ddarpariaeth addysg gynnar sydd i'w chynnig fel lleoliad nas cynhelir, sydd yn rhannu'r un safle â'r ysgol pob oed. Mae'r ddarpariaeth addysg gynnar yn destun pryder i lawer sydd wedi cymryd rhan yn y broses ymgynghori ac yn ymddangos o dan adran 6.2 (thema 1) o'r adroddiad, lle y mae manylion y pryderon yma wedi eu crynhoi ar y cyd gydag ymateb y Cyngor i'r pryderon yma.

Mae'r Cyngor yn parhau i gredu fod model nas cyflenwir yn gweithio'n llwyddiannus mewn ardaloedd eraill o'r sir ac yn cynnig lefelau cynyddol o hyblygrwydd er mwyn cefnogi teuluoedd gyda gofal plant. Fodd bynnag, rhaid i ni ystyried hefyd yr adborth sydd wedi ei dderbyn yn ystod yr ymgynghoriad hwn i lywio'r penderfyniadau a wneir o ran y camau nesaf yn y broses.

### 4. Perfformiad Ysgol Gynradd Deri

Mae'r Cyngor yn cefnogi barn y Corff Llywodraethu sef nad yw Ysgol Gynradd Deri View yn ysgol sydd yn methu ac yn darparu cyfleoedd ardderchog i'r plant a phobl ifanc sydd yno. Mae'r Cyngor yn cytuno y dylid parhau gyda'r arferion ardderchog sydd i'w gweld yn yr ysgol a'u trosglwyddo i'r ysgol newydd os caiff y cynigion eu gweithredu.

### 5. Buddion Addysgol

Mae'r Cyngor yn credu fod yna fuddion addysgol cryf yn gysylltiedig gyda'r cynigion i ddatblygu ysgol pob oed. Yn unol gyda gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion (Tachwedd 2018) mae angen i'r Cyngor, drwy'r adroddiad hwn, i adolygu'r effaith ar ansawdd a safon yr addysg, ac mae hyn ar gael yn adran 9.1 o'r adroddiad hwn.

### 6. Teithio pellteroedd

Mae'r Cyngor wedi cynnal asesiad o effaith y cynigion yma ar y pellter y bydd yn rhaid i ddisgyblion Ysgol Gynradd Deri View deithio. Mae adran 9.3 o'r adroddiad yn ymdrin gyda hyn mewn o fanylder ond mae'r Cyngor yn fodlon y bydd y rhan fwyaf o deuluoedd yn elwa o leoliad yr ysgol newydd arfaethedig.

### 7. Trefniadau pontio

Mae perthynas gref iawn rhwng Ysgol Brenin Harri'r VIII a'r ysgolion clwstwr yn Sir Fynwy. Yn y gorffennol, mae'r berthynas hon wedi datblygu ac mae'n cynnwys rhannu adnoddau addysgu a chynllunio. Mae'r cysylltiadau o ran rhifedd a llefaredd yn cael eu hystyried fel rhai sydd yn arwain y sector.

Gyda'i gilydd, mae'r ysgolion eisoes wedi dechrau paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd ac mae alinio'r dysgu rhwng blynyddoedd 5 ac 8 yn mynd i gyfateb i'r 'cyfnod canolradd' a gynigir yn yr ysgol newydd.

Bydd datblygu ysgol pob oed hefyd yn cryfhau'r berthynas rhwng yr ysgolion clwstwr. Drwy gynllunio agos ac wrth i'r elfen uwchradd gael gweld yr hyn sydd yn digwydd mewn ysgolion cynradd, bydd hyn yn elwa'r holl ddysgwyr yn yr ardal.

### 8. Enw'r ysgol

Mae enw'r ysgol newydd yn thema allweddol sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod y broses ymgynghori. Mae'r Cyngor yn cydnabod y sylwadau a wneir gan y Corff Llywodraethu a'r ymgynghoreion eraill ynglŷn ag enw'r ysgol newydd. Mae proses statudol yn ffocysu ar yr egwyddorion sydd yn rhan o'r cynnig i greu ysgol pob oed ar safle Ysgol Uwchradd Brenin Harri'r VIII. Bydd unrhyw benderfyniad a wneir am enw'r ysgol yn rhan o broses ar wahân unwaith ein bod wedi penderfynu a fyddwn yn bwrw ymlaen ai peidio gyda'r cynigion sydd wedi eu hamlinellu yn yr ymgynghoriad.

## 6.5 Barn y sawl sydd o blaid y cynigion

Mae'r tabl isod yn crynhoi ymatebion y sawl sydd o blaid y cynigion i sefydlu ysgol pob oed, gyda darpariaeth arbenigol, yng ngogledd y Sir ar safle Ysgol Brenin Harri'r VIII.

<b>Crynodeb o'r Sylwadau</b>
Barn bod ysgol pob oed yn mynd i helpu atal dirywiad mewn cyrhaeddiad, sydd fel arfer yn digwydd yn ystod y cyfnodau pontio
Barn bod y cynigion yn mynd i roi cyfleusterau newydd i Ysgol Brenin Harri'r VIII sydd yn addas i'r diben a gwir eu hangen
Barn bod y cyfleusterau newydd yn mynd i gynnig manteision i'r gymuned gyfan
Barn bod y cynnig am ysgol pob oed yn mynd i ganiatáu continwmm o ran dysgu
Barn bod y cyfnod anodd rhwng symud o'r Ysgol Gynradd i'r Ysgol Uwchradd yn mynd i gael ei liniaru yn sgil y model
Barn bod y cynnig yn mynd i ganiatáu twf mewn Addysg Cyfrwng Cymraeg o fewn yr ardal
Barn bod y model arfaethedig yn mynd i ganiatáu ymarferwyr i gydweithio'n agosach er mwyn cefnogi anghenion myfyrwyr yn fwy effeithiol, doed a ddelo ble maent o ran datblygiad
Barn bod hyn yn berffaith ar gyfer addysgu Cwricwlwm i Gymru newydd ar gyfer disgyblion 3-16

## 6.6 Barn y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA)

---

Mae'r Cyngor wedi comisiynu'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg i ddarparu'r gwasanaeth Gwella Ysgolion o fewn ein sir. Mae ymateb y GCA i'r ymgynghoriad wedi ei gyhoeddi isod:

Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffeifrir ac mae'r GCA yn cytuno'n llwyr gyda'r manteision a nodwyd o fewn y cynnig. Byddai'r prif bwyntiau yn cynnwys:

\* Y cyfle i ddefnyddio'r datblygiad er mwyn gwella arbenigedd staff ymhellach, ail-ddiffinio trefniadau pontio, datblygu trefniadau asesu arloesol sydd yn canoli ar y disgyblion a datblygu polisïau a strategaethau cyson ar draws yr ystod lawn o ran oedran.

\* Y gallu i addysgu Cwricwlwm i Gymru o fewn cyd-destun darpariaeth 3-18 mewn gofod dysgu sydd wedi ei adeiladu i'r diben a'r cyfle i wyntyllu cynnydd a pharhad ar draws yr ystod lawn o oedran.

\* Bydd y ddarpariaeth arbenigol ar gyfer ADY yn cwmpasu disgyblion yng Nghyfnodau Allweddol 3, 4 a 5. Yn cynnig cysondeb o fewn un canolfan.

\* Y cyfle i adeiladu capasiti o fewn ymarferwyr a hefyd wrth ddatblygu timau arwain hyblyg a chydnerth.

## 7. Ymateb ESTYN

---

Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2018 yn golygu bod rhaid i'r Cyngor ymgynghori gydag ESTYN ar faterion Trafnidiaeth Ysgolion statudol. Isod, mae'r ymateb gan ESTYN i'r ymgynghoriad i sefydlu ysgol pob oed (4-19) a Darpariaeth Arbenigol i Ddisgyblion sydd ag Anghenion Niwroddatblygol a Dysgu Cymhleth yn Y Fenni.

### **Cyflwyniad**

Mae'r adroddiad hwn wedi ei baratoi gan Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod perthnasol, rhaid i gynigwyr ddanfod dogfennau ymgynghori at Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff sydd yn gorfod gweithredu yn unol gyda'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgol. Felly, fel corff sydd yn rhan o'r ymgynghoriad, bydd Estyn yn cynnig barn yn unig ar rinweddau cyffredinol y cynigion.

Mae Estyn wedi ystyried agweddau addysgol y cynnig ac wedi paratoi'r ymateb canlynol i'r wybodaeth sydd wedi ei darparu gan y cynigydd.

Mae'r cynnig ymgynghoriad hwn wedi ei gyflwyno gan Gyngor Sir Fynwy.

Mae'r cynnig yn golygu:

- cau Ysgol Gynradd Deri View ac Ysol Uwchradd Brenin Harri'r VIII sydd gerllaw a sefydlu ysgol pob oed i ddisgyblion rhwng 4 a 19 mlwydd oed. Mae hyn yn cynnwys adleoli

Dechrau'n Deg a datblygu darpariaeth er mwyn medru cynnal disgyblion rhwng 4 ac 19 mlwydd oed sydd ag anghenion niwroddatblygol a dysgu cymhleth.

- Sefydlu ysgol arfaethedig mewn adeilad newydd a fydd yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru fel rhan o Raglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif.
- Cynnwys cyfleuster meithrinfa fel lleoliad nas cynhelir. Nid yw hyn yn rhan o'r ymgynghoriad statudol.

## **Crynodeb/ casgliad**

Barn Estyn yw bod y cynnig yn debygol o gynnal y safonau addysg presennol yn yr ardal.

## **Disgrifiadau a buddion**

Mae'r cynigydd wedi rhoi rhesymeg eglur am y cynnig. Mae adroddiad yr ymgynghoriad yn cynnig manteision ac anfanteision dilys a geir gan fodel ysgol pob oed. Mae'r adroddiad hefyd yn dangos sut y bydd yr adeilad newydd yn medru cynnal disgyblion o bob oed ynghyd ag adnodd arbenigol ar gyfer saith deg o blant sydd ag anghenion niwroddatblygol a dysgu cymhleth.

Mae'r cynigydd wedi rhoi disgrifiad manwl o sut y bydd Ysgol Gynradd Deri View ac Ysol Uwchradd Brenin Harri'r VIII yn cau yn Awst 2023 ac yn agor fel ysgol newydd ar safle Ysol Brenin Harri'r VIII ym Medi 2023. Mae disgwyl i'r adeilad newydd agor ym Medi 2024. Mae'r amserlen ar gyfer yr ymgynghoriad yn eglur ac o fewn canllawiau'r Cod. Mae'r trefniadau ar gyfer yr ymgynghoriad wedi eu manylu'n dda.

Mae pum opsiwn yn cael ei ystyried:

1. Cadw'r status quo.
2. Sefydlu ysgol pob oed gyda darpariaeth addas ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a chau Ysgol Gynradd Deri View ac Ysgol Brenin Harri'r VIII
3. Ehangu ystod oedran Ysgol Brenin Harri'r VIII i gynnwys Ysgol Gynradd Deri View. Ail-leoli i adeilad newydd pwrpasol ar safle Ysol Brenin Harri'r VIII a chau Ysgol Brenin Harri'r VIII
4. Ehangu ystod oedran Ysgol Gynradd Deri View i gynnwys Brenin Harri'r VIII ac ail-leoli i adeilad newydd pwrpasol ar safle Ysol Brenin Harri'r VIII a chau Ysgol Brenin Harri'r VIII
5. Sefydlu ysgol pob oed gyda darpariaeth addas ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a chau Ysgol Gynradd Deri View ac Ysgol Brenin Harri'r VIII

Mae'r cynigydd yn ystyried manteision ac anfanteision pob opsiwn ac yn cymharu'r opsiynau gyda'r sefyllfa bresennol. Yr opsiwn a ffeirir yw sefydlu ysgol pob oed gyda darpariaeth ADY. Mae'n rhoi ystyriaeth i'r holl opsiynau yma a rhesymau da ynglŷn â pham y mae'n rhaid eu rhoi o'r neilltu.

Mae'r cynigydd yn lliniaru yn erbyn y risgiau o ran yr opsiwn a ffeirir ac yn esbonio sut y byddent yn delio ag unrhyw broblemau posibl.

Bydd asesiad o'r effaith ar draffig yn cael ei gynnal ond ni ddylai effeithio ar drefniadau ar gyfer disgyblion, a hynny gan fod safle Ysgol Gynradd Deri View mor agos i'r adeilad arfaethedig newydd ar gyfer Brenin Harri'r VIII. Gallai'r cynnig effeithio hefyd ar ddisgyblion sydd yn cael eu trosglwyddo i'r ddarpariaeth arbenigol os nad ydynt yn mynychu Ysgol Gynradd Deri View ac Ysgol Brenin Harri'r ar hyn o bryd. Nid yw'r awdurdod lleol yn ystyried hyn mewn modd digonol

Mae'r effaith ar y nifer o lefydd dros ben yn cael ei drafod yn effeithiol ac yn seiliedig ar y rhagolygon o ran y disgyblion posib a'r datblygiadau tai. Mae'r model yn awgrymu y bydd y nifer o lefydd dros ben yn lleihau 4 pwynt y cant erbyn 2025.

Mae'r cynigydd wedi ystyried yr effaith ar addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal. Mae'n nodi fod y cynnig yn cefnogi gweledigaeth i adeiladu cymunedau cynaliadwy a chydnerth dwyieithog ar draws y sir ac addysgu mwy o blant drwy gyfrwng y Gymraeg fel sydd wedi ei amlinellu yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Mae mwy o alw am addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal. Os caiff y cynnig hwn ei dderbyn, bydd hen safle Ysgol Gynradd Deri View yn cael ei ailwampio a bydd Ysgol Gymraeg Y Fenni yn symud yno o'i safle presennol. Os caiff Ysgol Gymraeg Y Fenni ei hail-leoli, bydd angen cynnal proses ymgynghori statudol.

Mae'r cynigydd yn ystyried yr effaith y bydd agor ysgol cyfrwng Cymraeg 3-19 yn ei gael ar awdurdod cyfagos, sef Torfaen. Mae disgyblion o Ysgol Gymraeg y Fenni yn mynd i Ysgol Gyfun Gwynllyw ar hyn o bryd. Byddai'r datblygiad hwn yn sicrhau digon o lefydd fel bod disgyblion yn medru parhau gyda'u haddysg Gymraeg yng nghyfnod allweddol 3. Mae'r cynigydd wedi nodi'r arbedion ariannol posib sy'n rhan o'r cynnig.

### **Agweddau addysgol y cynnig**

Mae'r cynigydd wedi ystyried canlyniadau arolygon diweddar Estyn ar gyfer pob un o'r ysgolion sydd wedi eu heffeithio.

Arolygwyd Ysgol Gynradd Deri View yn 2018 a dyfarnwyd safon 'digonol' ar gyfer safonau, addysg ac arweinyddiaeth ac roedd angen arolwg pellach gan Estyn. Dyfarnwyd fod yr ysgol angen lefel ychwanegol o gymorth yn, sydd yn uwch na'r ddwy flynedd flaenorol ac yn nodi fod yna ddirwasid o ran sicrhau gwelliannau.

Arolygwyd Ysgol Brenin Harri'r VIII yn Rhagfyr 2014 a gosodwyd yr ysgol yn y categori 'Gwelliant Sylweddol'. Ym Mehefin, dyfarnwyd fod yr ysgol wedi gwneud cynnydd digonol ac fe'i tynnwyd o'r categori yma. Mae'r categoreiddio cenedlaethol diweddaraf ar gyfer Ysgol Brenin Harri'r VIII yn gosod yr ysgol yn y categori sydd yn golygu bod yr ysgol angen yr isafswm o ran cymorth er mwyn gwella safonau, a hynny am yr ail flwyddyn yn olynol.

Nid yw'r awdurdod yn ystyried yr effaith ar safonau, addysgu, cwricwlwm, llesiant ac arweinyddiaeth mewn digon o fanylder. Mae'r ystyriaeth a wneir gan y cynigydd yn seiliedig ar y buddion posib a ddaw yn sgil yr ysgol pob oed. Mae hyn yn cynnwys awgrymiadau dilys y bydd yna drefniadau pontio mwy effeithiol rheng y cyfnodau a mwy o gyfleodd i ddatblygu darpariaeth addysg a darpariaeth ar draws yr ystod oedran ysgol.

Mae'r cynigydd wedi ystyried y deilliannau diweddaraf o'r arolygon ar gyfer ysgolion cynradd eraill yn yr ardal a fydd o bosib yn cael eu heffeithio os yw'r ysgol pob oed newydd hon yn cael ei hagar. Yn gyffredinol, mae'r ysgolion yma wedi perfformio'n dda ac nid oes unrhyw un ohonynt wedi ei gosod mewn categori statudol.

Mae'r cynigydd yn ystyried effaith y cynigydd ar grwpiau bregus. Mae'r cynnig yn nodi y bydd y lefel o gymorth ar gyfer disgyblion ag anghenion addysg arbennig yn parhau. Bydd disgyblion sydd yn mynychu'r adnodd cymorth dysgu newydd o fewn yr ysgol newydd yn elwa o gysondeb o ran y cymorth y maent yn derbyn ac yn elwa hefyd o fod mewn cyfleuster sydd wedi ei adeiladu'n bwrpasol.

Mae'r cynigydd yn nodi y byddant yn ymgynghori gyda disgyblion yn y ddwy ysgol sydd wedi eu heffeithio er mwyn rhoi'r cyfle iddynt leisio eu barn. Er mwyn sicrhau cyn lleied o aflonyddwch ag sydd yn bosib, bydd disgyblion Ysgol Brenin Harri'r VIII yn parhau i astudio ar yr un safle tan fod yr adeilad newydd yn barod. Mae disgyblion yn Ysgol Gynradd Deri View yn mynd i barhau i astudio ar yr un safle tan fod yr adeilad newydd yn barod. Bydd y Cyngor yn ystyried barn disgyblion cyn pennu'r camau nesaf.

Mae'r cynnig yn ystyried i'r ffactorau penodol yn y cod trefniadaeth ysgol sydd yn ymwneud gyda chau ysgolion. Mae'n bwriadu cynnal asesiad o'r effaith ar y gymuned er mwyn deall goblygiadau ei benderfyniadau.

## 7.1 Ymateb y Cyngor i ESTYN

---

Mae'r Cyngor yn gwerthfawrogi'r mewnbwn gan Estyn i'r broses ymgynghori yma. O'r ymateb uchod, rydym wedi dod i'r casgliad bod ESTYN yn gefnogol o'r cynigion. Fodd bynnag, mae dau faes lle y mae angen mwy o wybodaeth:

### 1. Effaith ar safonau, addysgu, cwricwlwm, llesiant ac arweinyddiaeth

Yn dilyn yr ymgynghoriad, mae angen i'r Cyngor, yn unol gyda'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018), i gynnal asesiad pellach o effaith y cynigion ar ansawdd a safonau mewn addysg.

Mae canlyniad yr asesiad wedi ei gynnwys o dan adran 9.1 yr adroddiad sydd yn amlinellu mewn mwy o fanylder yr hyn y mae'r Cyngor yn credu sydd yn effaith bositif yn y maes hwn.

### 2. Trefniadau teithio ar gyfer y bobl ifanc sydd angen Darpariaeth Arbenigol

Mae'r ymateb gan Estyn yn awgrymu bod angen ystyried mewn mwy o fanylder yr effaith ar drefniadau teithio ar gyfer pobl ifanc sydd yn dechrau derbyn cymorth arbennig ond na sydd yn mynychu Ysgol Uwchradd Brenin Harri'r VIII neu Ysgol Gynradd Deri View.

Mae'r Cyngor wedi cwblhau asesiad o'r effaith ar drefniadau teithio ar gyfer pobl ifanc sydd wedi eu heffeithio gan y cynigion yma ac wedi dod i'r casgliad fod yr holl ddysgwyr bron yn mynd i elwa o leoliad yr ysgol arfaethedig newydd. Mae mwy o wybodaeth yn adran 9.3 yr adroddiad hwn.

Ymhlith y plant a'r bobl ifanc sydd angen lle o fewn y ddarpariaeth arbenigol, mae'r Cyngor yn credu y bydd y cynigion yn ei helwa o ran trefniadau teithio ar gyfer y sawl sydd yn byw yn y gymuned. Ar hyn o bryd, mae rhai pobl ifanc yn teithio i gyrraedd darpariaeth sydd y tu hwnt i'w cymunedau lleol. Mae'r cynnig i ddarparu darpariaeth arbenigol ar gyfer disgyblion ag anghenion niwroddatblygol a dysgu cymhleth fel rhan o'r cynigion yma yn golygu y bydd yna gynnydd yn y gyfran o wasanaethau sydd yn cael eu darparu'n lleol. Mae hyn yn golygu na fydd rhaid i rai pobl ifanc i deithio y tu hwnt i gymuned Y Fenni er mwyn cael mynediad at ddarpariaeth gymunedol sydd yn addas ar gyfer eu hanghenion.

## 8. Adolygiad o effaith y cynigion (yr holl opsiynau)

---

Yn unol gyda Chod Trefniadaeth Ysgolion (Cymru) (2018), mae angen i'r Cyngor i gynnal asesiad pellach o'r cynnig a'r opsiynau amgen, gan ystyried y wybodaeth sydd wedi ei derbyn yn ystod y broses ymgynghori

Mae'r tabl isod yn crynhoi ein hasesiad o bob un opsiwn a'u heffaith ar:

- Ansawdd a Safonau mewn Addysg
- Yr effaith debygol ar y Gymuned
- Yr effaith debygol ar drefniadau teithio

	Effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg	Yr effaith debygol ar y gymuned	Yr effaith debygol ar drefniadau teithio gwahanol
1. Gwneud dim a pharhau gyda'r status quo - dwy ysgol annibynnol ar un safle	<p><b>Negatif</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Ni fydd cyfleusterau yn yr ysgol uwchradd yn addas ar gyfer addysgu'r cwricwlwm newydd yn effeithiol</li> <li>Byddai darpariaeth chweched dosbarth dal wedi ei gyfyngu ac yn medru arwain at bobl ifanc yn dewis darpariaeth ôl-16 y tu allan i'r sir</li> <li>Byddai cyfleoedd cyfyngedig o ran datblygu continwwm effeithiol o ddysgu rhwng 3 a 19.</li> </ul>	<p><b>Cytbwys</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae yna botensial fod hyn yn cael effaith negatif ar y gymuned o siaradwyr Cymraeg gan na fydd y datrysiad yma yn caniatáu addysg Gymraeg i ehangu. Mae rhai rhannau o'r gymuned wedi mynegi gwerth lleoliad Ysgol Deri View. Mae ein dadansoddiad wedi dangos nad yw hyn yn gywir<sup>8</sup></li> </ul>	<p><b>Positif</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd y trefniadau teithio ar gyfer pobl ifanc yn parhau'n ddigryfnid</li> </ul> <p><b>Negatif</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>I blant ag ADY, byddai'r ddarpariaeth arbenigol heb ei sefydlu sydd yn golygu y byddai'r status quo yn parhau h.y. bydd yna ofyniad ar rai pobl ifanc gael mynediad at ddarpariaeth y tu hwnt i'r gymuned.</li> </ul>
2. Sefydlu ysgol pob oed gyda darpariaeth ADY ar safle Ysgol Brenin Harri'r VIII a chau Ysgolion Brenin Harri'r VIII a Deri View	<p><b>Positif</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Ystod eang o ofodau corfforol, adnoddau gwell a chapasiti digidol gwell i gefnogi dysgu effeithiol nawr ac yn y dyfodol.</li> <li>Byddai gweithlu sengl mewn ysgol pob oed yn medru adlewyrchu a datblygu dysgu safon uchel parhaus ar gyfer y disgyblion iau a'r rhai hynaf.</li> <li>Mynediad ar y safle at wasanaethau arbenigol fel Dechrau'n Deg.</li> <li>Mwy o gyfleoedd i'r gymuned i ddefnyddio'r cyfleusterau.</li> </ul> <p><b>Negatif</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Dim darpariaeth uwchradd ar gyfer dysgwyr Cymraeg</li> <li>Mynegwyd pryderon am natur arbenigol cymuned Deri View</li> </ul>	<p><b>Positif</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Capasiti ychwanegol o ran Dechrau'n Deg</li> <li>Potensial am Ofal Plant</li> <li>Cyfleusterau gwell ar gyfer y gymuned</li> <li>Buddion Cymunedol</li> </ul> <p><b>Negatif</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mynegwyd pryderon y byddai symud yr ysgol a'r ddarpariaeth yn creu heriau o ran ymgysylltu rhieni.</li> <li>Teimlwyd fod y gymuned ac yn cael ei thrin yn annheg gan ei bod yn rhan o broses o gyfuno'r ysgol ag agoriad Deri View.</li> </ul>	<p><b>Positif</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd y rhan fwyaf o bobl sydd yn mynychu Ysgol Gynradd Deri View yn gorfod teithio llai o bellter.</li> <li>Bydd y ddarpariaeth ADY yn caniatáu mwy o bobl i dderbyn cymorth holistaidd o fewn eu cymunedau gan leihau'r angen i deithio i ddarpariaeth arbenigol arall, sydd y tu hwnt i'r sir.</li> </ul> <p><b>Negatif</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Myfyrwyr CA3 a 4 yn parhau i fynd i Ysgol Gyfun Gwynllyw</li> </ul>



<p><b>3. Sefydlu ysgol pob oed gyda darpariaeth ADY a ffrwd Cymraeg ar gyfer cyfnodau allweddol 3,4 a 5 ar safle Ysgol Brenin Harri'r VIII a chauYsgolion Brenin Harri'r VIII a Deri View</b></p>	<p><b>Positif</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ystod eang o ofodau corfforol a chapasiti digidol gwell er mwyn cefnogi dysgu effeithiol nawr ac yn y dyfodol.</li> <li>• Byddai gweithlu sengl mewn ysgol pob oed yn medru adlewyrchu a datblygu dysgu safon uchel parhaus ar gyfer y disgyblion iau a'r rhai hynaf.</li> <li>• Mynediad ar y safle at wasanaethau arbenigol fel Dechrau'n Deg</li> <li>• Mwy o gyfleoedd i'r gymuned ddefnyddio'r cyfleusterau.</li> </ul> <p><b>Negatif</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ni fyddai'r ffrwd cyfrwng Cymraeg yn medru darparu profiad ymdrochi addas ar gyfer dysgwyr Cymraeg.</li> <li>• Mynegwyd pryderon am natur arbenigol cymuned Deri View</li> </ul>	<p><b>Positif</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Capasiti ychwanegol o ran Dechrau'n Deg</li> <li>• Potensial am Ofal Plant</li> <li>• Cyfleusterau gwell ar gyfer y gymuned</li> <li>• Buddion Cymunedol</li> </ul> <p><b>Negatif</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mynegwyd pryderon y byddai symud yr ysgol a'r ddarpariaeth yn creu heriau o ran ymgysylltu rhieni.</li> <li>• Teimlwyd fod y gymuned yn cael ei thrin yn annheg gan ei bod yn rhan o broses o gyfuno'r ysgol ag agoriad Deri View.</li> </ul>	<p><b>Positif</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd y rhan fwyaf o bobl sydd yn mynychu Ysgol Gynradd Deri View yn gorfod teithio llai o bellter.</li> <li>• Bydd y ddarpariaeth ADY yn caniatáu mwy o bobl i dderbyn cymorth holistaidd o fewn eu cymunedau gan leihau'r angen i deithio i ddarpariaeth arbenigol arall, y tu hwnt i'r sir.</li> <li>• Byddai dysgwyr cyfrwng Cymraeg sydd yn dewis bod yn rhan o'r ffrwd yn arwain at ostyngiad mewn amseroedd teithio.</li> </ul>
<p><b>4. Ehangu ystod oedran Brenin Harri'r VIII ac ymgorffori Ysgol Deri View</b></p>	<p><b>Positif</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ystod eang o ofodau corfforol a chapasiti digidol gwell er mwyn cefnogi dysgu effeithiol nawr ac yn y dyfodol.</li> <li>• Byddai gweithlu sengl mewn ysgol pob oed yn medru adlewyrchu a datblygu dysgu safon uchel parhaus ar gyfer y disgyblion iau a'r rhai hynaf.</li> <li>• Mynediad ar y safle at wasanaethau arbenigol fel Dechrau'n Deg</li> </ul>	<p><b>Positif</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Capasiti ychwanegol o ran Dechrau'n Deg</li> <li>• Potensial am Ofal Plant</li> <li>• Cyfleusterau gwell ar gyfer y gymuned</li> <li>• Buddion Cymunedol</li> </ul> <p><b>Negatif -</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mynegwyd pryderon y byddai symud yr ysgol a'r ddarpariaeth yn creu heriau o ran</li> </ul>	<p><b>Positif</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd y rhan fwyaf o bobl sydd yn mynychu Ysgol Gynradd Deri View yn gorfod teithio llai o bellter.</li> <li>• Bydd y ddarpariaeth ADY yn caniatáu mwy o bobl i dderbyn cymorth holistaidd o fewn eu cymunedau gan leihau'r angen i deithio i ddarpariaeth arbenigol arall, y tu hwnt i'r sir.</li> </ul>



	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mwy o gyfleoedd i'r gymuned ddefnyddio'r cyfleusterau.</li> </ul> <p><b>Negatif</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ni fyddai'r ffrwd cyfrwng Cymraeg yn medru darparu profiad ymdrochi addas ar gyfer dysgwyr Cymraeg.</li> <li>• Pryderon fod cymuned Ysgol Deri View yn cael ei llyncu gan yr ysgol uwchradd ac yn colli ei natur unigryw.</li> </ul>	<p>ymgysylltu rhieni.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Teimlwyd fod y gymuned yn cael ei thrin yn annheg gan ei bod yn rhan o broses o gyfuno'r ysgol ag agoriad Deri View.</li> <li>• Efallai y byddai hyn yn cael ei ddehongli fel yr ysgol arall yn meddiannu Ysgol Deri View.</li> </ul>	
<p><b>5. Ehangu ystod oedran Brenin Harri'r VIII ac ymgorffori Ysgol Deri View</b></p>	<p><b>Positif</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ystod eang o ofodau corfforol a chapasiti digidol gwell er mwyn cefnogi dysgu effeithiol nawr ac yn y dyfodol.</li> <li>• Byddai gweithlu sengl mewn ysgol pob oed yn medru adlewyrchu a datblygu dysgu safon uchel parhaus ar gyfer y disgyblion iau a'r rhai hynaf.</li> <li>• Mynediad ar y safle at wasanaethau arbenigol fe Dechrau'n Deg</li> <li>• Mwy o gyfleoedd i'r gymuned ddefnyddio'r cyfleusterau.</li> </ul> <p><b>Negatif</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ni fyddai'r ffrwd cyfrwng Cymraeg yn medru darparu profiad ymdrochi addas ar gyfer dysgwyr Cymraeg.</li> <li>• Pryderon y byddai Ysgol Brenin Harri'r VIII yn colli ei henw a'i statws fel...ymddiriedolaeth</li> </ul>	<p><b>Positif</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Capasiti ychwanegol o ran Dechrau'n Deg</li> <li>• Potensial am Ofal Plant</li> <li>• Cyfleusterau gwell ar gyfer y gymuned</li> <li>• Buddion Cymunedol</li> </ul> <p><b>Negatif</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mynegwyd pryderon y byddai symud yr ysgol a'r ddarpariaeth yn creu heriau o ran ymgysylltu rhieni.</li> <li>• Teimlwyd fod y gymuned yn cael ei thrin yn annheg gan ei bod yn rhan o broses o gyfuno'r ysgol ag agoriad Deri View.</li> </ul>	<p><b>Positif</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd y rhan fwyaf o bobl sydd yn mynychu Ysgol Gynradd Deri View yn gorfod teithio llai o bellter.</li> <li>• Bydd y ddarpariaeth ADY yn caniatáu mwy o bobl i dderbyn cymorth holistaidd o fewn eu cymunedau gan leihau'r angen i deithio i ddarpariaeth arbenigol arall, y tu hwnt i'r sir.</li> </ul>

## 9. Adolygiad o effaith yr opsiwn a ffefrir

Roedd y Cyngor wedi ymgynghori ar yr opsiwn a ffefrir i sefydlu ysgol pob oed gyda darpariaeth ADY addas ar safle Brenin Harri'r VIII ac atal cynnal Ysgolion Brenin Harri'r VIII a Deri View. Yn dilyn yr ymatebion a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad, mae'r Cyngor wedi adolygu effaith y cynigion ar y meysydd canlynol:

### 9.1 Ansawdd a Safonau mewn Addysg

#### Effaith ar Addysgu

Bydd cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru yn rhoi mwy o ryddid i ysgolion i gynnig ystod eang o bethau gwahanol mewn nifer o ffyrdd. Bydd yn dylanwadu ar sut y caiff ysgolion eu trefnu yn y dyfodol, ac o bosib, bydd ysgolion pob oed yn cael mwy o hyblygrwydd i fanteisio ar arbenigedd a phrofiad mwy o staff ar draws ystod ehangach o oedran. Mae hyn yn gosod ysgolion pob oed mewn sefyllfa fanteisiol pan yn meddwl ac yn rheoli beth a sut y mae disgyblion yn dysgu, ac felly'r cyfle i weithio gydag ystod o gydweithwyr sydd yn helpu'r holl athrawon i ddatblygu eu practis.

#### Dysgu

Bydd dileu'r cyfnodau cyffredinol a'r cyfnodau allweddol yn rhoi mwy o ryddid i athrawon i ddiwallu anghenion unigol y dysgwyr, ac ni fydd ots beth yw eu hoedran, a ble maent ar y continwwm dysgu. Golyga hyn y bydd ysgolion ac athrawon yn cael mwy o ryddid i wneud penderfyniadau am yr hyn sydd yn cael ei addysgu a sut y mae'n cael ei addysgu fel bod yr addysg yn berthnasol ac yn ymgysylltu dysgwyr. Ni fydd yna wahaniaeth mwyach rhwng yr hyn sydd yn digwydd mewn ysgol gynradd ac ysgol uwchradd a dylai'r profiad o fynd o'r naill i'r llall fod yn fwy didrafferth i'r dysgwr. Ceir un gweithlu yn yr ysgol pob oed a bydd yn medru myfyrio a dyblygu addysgu safon uchel ar gyfer bawb, o'r ieuengaf i'r hynaf, a hynny o gymharu ag un grŵp o athrawon sydd yn canolbwyntio ar un cyfnod.

Mae ysgolion pob oed hefyd yn medru darparu ystod ehangach o ofodau corfforol ar gyfer addysgu a dysgu, mwy o ofodau arbenigol, adnoddau a deunyddiau sydd yn medru cael eu defnyddio gan ddysgwyr ar draws ystod ehangach o oedran, yn hytrach na fesul cyfnod oedran. Mae hyn yn cynnwys teclynnau digidol, gwybodaeth a thechnoleg dysgu sydd yn medru bod yn anodd eu prynu, eu cynnal a'u hadnewyddu mewn ysgolion arferol.

#### Arweinyddiaeth

Mae yna fanteision clir ar gyfer ysgol pob oed pan yn datblygu a'n addysgu'r cwricwlwm newydd, cefnogi dysgwyr a darparu amgylchedd dysgu effeithiol. Mae'r

newidiadau yma yn hawdd eu gwneud mewn ysgol pob oed gan fod mwy o gapasiti gan y gweithlu a'r hyblygrwydd a'r cyfle i fod yn rhan o gymuned ddysgu broffesiynol ehangach, ac felly, yn fwy tebygol o ddatblygu na'r hyn sydd yn digwydd fel arfer mewn ysgolion llai a mwy traddodiadol. Bydd mwy o gyfleoedd i staff i ymgymryd â rôl fel arweinwyr neu mwy o gyfrifoldebau er mwyn datblygu eu gyrfaoedd a sicrhau arweinwyr ysgol safon uchel ar gyfer y dyfodol.

### Effaith ar Lesiant

Mae addysgu cwricwlwm hyblyg, sydd yn ymgysylltu ac yn barhaus mewn amgylchedd dysgu safon uchel, gyda'r gofod a'r adnoddau i ddiwallu anghenion a diddordebau dysgwyr, yn mynd i gael effaith bositif ar lesiant. Bydd model ysgol pob oed yn meddu ar fwy o gapasiti i ddarparu hyn ar gyfer dysgwyr ar draws ystod ehangach o oedran, a hynny o'i gymharu gydag ysgolion llai a thraddodiadol.

## 9.2 Effaith ar y Gymuned

---

Yn ystod cyfnod ymgynghori'r broses hon, roedd y Cyngor wedi cwblhau a chyhoeddi ymhlith ymgynghoreion asesiad ar Gydraddoldeb a Chenedlaethau'r Dyfodol ac asesiad ar yr iaith Gymraeg.

Mae'r ddwy ddogfen wedi eu hadolygu a'u diweddarau gan ystyried yr adborth sydd wedi ei dderbyn yn ystod yr ymgynghoriad. Y consensws o'r ail-asesu yw y bydd y cynnig yma yn cael effaith bositif ar y Gymuned a'r iaith Gymraeg, gyda mesurau priodol yn cael eu gosod mewn lle er mwyn liniaru unrhyw effeithiau negatif.

Mae copïau o'r Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a Chenedlaethau'r Dyfodol ar gael fel atodiadau i'r adroddiad hwn.

## 9.2 Effaith ar drefniadau Teithio

---

Mae'r Cyngor wedi cynnal asesiad o'r effaith ar drefniadau teithio ar gyfer disgyblion os sefydlir ysgol pob oed ar safle Ysgol Uwchradd Brenin Harri'r VIII.

Ni fydd y plant a'r bobl ifanc sydd wedi cofrestru yn Ysgol Uwchradd Brenin Harri'r VIII yn cael eu profi unrhyw newid o ran eu trefniadau teithio yn sgil y cynigion yma.

Mae'r Cyngor wedi ystyried yr effaith ar drefniadau teithio'r plant a'r bobl ifanc sydd ar gofrestr Ysgol Gynradd Deri View, sydd o bosib yn mynd i orfod mynychu ysgol ar safle amgen yn sgil y cynigion yma. Roedd yr asesiad wedi pennu fod 71% o'r plant yn Ysgol Gynradd Deri View yn teithio llai o bellter wrth fynd i'r ysgol arfaethedig newydd. Byddai'r 29% sydd yn weddill yn gorfod teithio ymhellach; fodd bynnag, byddai 40% o'r rhain yn profi effaith o lai na 0.2 milltir. Yr uchafswm o ran teithio ychwanegol ar gyfer unrhyw un o'r plant yw 0.38 milltir.

Ni fydd y plant a'r bobl ifanc sydd wedi cofrestru yn yr ysgolion cynradd eraill o fewn y clwstwr yn cael eu heffeithio gan newidiadau mewn trefniadau teithio yn sgil y

cynigion yma, gan y bydd eu darpariaeth uwchradd yn parhau ar yr un safle ag ydyw ar hyn o bryd.

Mae'r Cyngor wedi ystyried effaith y trefniadau teithio ar blant a phobl ifanc sydd ag ADY ac angen lle mewn darpariaeth y tu hwnt i'r brif ffrwd. Mae'r cynigion y mae'r Cyngor wedi ymgynghori arnynt yn cynnwys sefydlu darpariaeth arbenigol i blant ag anghenion dysgu niwroddatblygol a dysgu cymhleth. Byddai'r cynnydd yn y ddarpariaeth leol yn arwain at rai plant a phobl ifanc yn profi gostyngiad yn y pellter y mae'n rhaid iddynt deithio gan y byddai darpariaeth addas ganddynt o fewn eu cymunedau.

## 10. Trosolwg a chonsensws cyffredinol

Nid oes amheuaeth fod y broses ymgynghori wedi bod yn hynod ddefnyddiol ac wedi rhoi cyfle llawn ac agored i brofi a gwerthuso'r cynnig. Mae dadansoddiad llawn o ganlyniadau'r ymgynghoriad wedi dangos i ni fod yna bedwar pryder sylweddol wedi dod i'r amlwg yn ystod y cyfnod ymgynghori o'r broses hon:

Thema 1	Y cynnig i sefydlu Meithrinfa Nas Cynhelir
Y prif bryder a nodwyd yn ystod y broses ymgynghori oedd natur y ddarpariaeth feithrinfa yn yr ysgol newydd. Roedd wedi dominyddu nifer o'r trafodaethau ac wedi bod yn nodwedd amlwg o'r dystiolaeth a dderbyniwyd gan Ysgol Gynradd Deri View ac Ysgol Brenin Harri'r VIII.	
Ymateb yr Awdurdod Lleol	
<p>Mae'r ddarpariaeth ar gyfer plant Blynyddoedd Cynnar sydd yn byw yn Y Fenni yn cael ei chynnig ar hyn o bryd drwy gyfuniad o leoliadau a gynhelir a rhai nas cynhelir. Mae tair meithrinfa ar safle ysgolion (lleoliadau a gynhelir) yn Y Fenni, sydd wedi ei lleoli ar safleoedd Ysgol Gynradd Deri View, Ysgol Gynradd Cantref ac Ysgol Gymraeg Y Fenni sydd yn cynnig 2.5 awr o ddarpariaeth y diwrnod i blant. Mae 8 canolfan nas cynhelir wedi eu cymeradwyo i ddarparu addysg gynnar o gwmpas Y Fenni sydd yn cynnig tua 200 o lefydd ac mae'r rhain yn medru bod yn llefydd rhan amser neu'n rhai llawn amser.</p> <p>Mae'r penderfyniad ynglŷn ag a ddylai'r ddarpariaeth addysg feithrin yn yr ysgol newydd fod yn un sydd wedi ei chynnal neu'n un nas cynhelir yn gymhleth iawn. Mae'r Cyngor yn ystyried bod yn fanteision ac anfanteision ar gyfer pob opsiwn, sydd wedi eu crynhoi isod:</p>	
<p><b><u>Lleoliad a Gynhelir</u></b></p>	
<p><b><u>Manteision</u></b></p>	
<ul style="list-style-type: none"><li>• Yn cael ei rheoli'n uniongyrchol gan y Pennaeth / Corff Llywodraethu sydd yn golygu fod yr ysgol yn gyfrifol am feysydd fel diogelu, gwella'r ysgol, gwerthuso staff a'r ddarpariaeth.</li><li>• Fel arfer, mae'r ddarpariaeth yn cael ei chynnig gan athro cymwys</li></ul>	

- Gan fod y cwricwlwm newydd ar gyfer plant ifanc dros 3, mae yna gyfle ar gyfer parhad o ran dysgu
- Mae'r plant yn ffurfio rhan o'r ysgol ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau yn yr ysgol, gan gynnwys cynulleidfaoedd. Mae'r ysgol yn elwa o gyfarwyddo eu hunain gyda staff yr ysgol, amgylchedd yr ysgol a'n cymryd rhan yng ngweithgareddau'r ysgol fel gwasanaethau. Mae hyn yn helpu plant wrth iddynt symud o'r Feithrinfa i'r Dosbarth Derbyn.

### Anfanteision

- Prif anfantais meithrinfa a gynhelir yw bod yna ddiffyg hyblygrwydd. Mae plant yn cael cynnig naill ai pum sesiwn yn y bore neu pum sesiwn yn y prynhawn bob wythnos ac mae pob sesiwn yn parhau am ddwy awr a hanner y diwrnod.
- Nid oes opsiwn i ymestyn yr oriau neu eu hamrywio mewn unrhyw ffordd er mwyn ystyried amgylchiadau'r teuluoedd unigol ac mae hyn yn aml yn cael ei ystyried fel rhywbeth na sydd yn helpu teuluoedd yn gweithio.
- Nid oes angen i staff i gael cymhwyster mewn datblygiad plentyn, a dros y blynyddoedd newydd, mae nifer cynyddol o blant wedi dechrau meithrinfeydd gydag oedi datblygiadol a bylchau sylweddol yn eu datblygiad.

### **Lleoliad Nas Cynhelir**

#### Manteision

Mae manteision canolfannau nas cynhelir mewn gwrthgyferbyniad gyda hyn Mae lleoliadau nas cynhelir:

- Mae'r rhain yn medru bod yn hynod hyblyg, gan ganiatáu rhieni i gofrestru ar gyfer sesiynau sydd yn diwallu eu hanghenion
- Mae plant yn medru mwynhau sesiynau hwy a chyfuniad o sesiynau yn y bore a'r prynhawn os oes angen.
- Rhaid i ganolfannau nas cynhelir o gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru, ac felly, mae teuluoedd cymwys sydd yn gweithio yn medru cael mynediad at 30 awr o ofal plant yr wythnos sydd wedi eu hariannu drwy gyfrwng y Cynnig Gofal Plant yn yr un ganolfan, gan leihau'r angen iddynt symud o'r naill ganolfan i ganolfan arall yn ystod yr un diwrnod.
- Mae staff mewn canolfannau nas cynhelir angen meddu ar gymhwyster gofal plant, sydd yn ffocysu'n benodol ar ddatblygiad plentyn. Maent hefyd yn meddu ar gymhareb well o ran staff a phlant gan fod rhaid i ganolfannau gynnal cymhareb o gael o leiaf 1 aelod o staff ar gyfer pob 8 plentyn ar gyfer plant rhwng 3 a 4 mlwydd oed, tra bod meithrinfeydd a gynhelir yn tueddu i weithredu ar gymhareb o 1 aelod o staff ar gyfer pob 10 plentyn.
- Mae canolfannau nas cynhelir yn derbyn cymorth a hyfforddiant gan y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (EAS), tra bod nifer o'r Cynghorwyr Herio EAS yn arbenigwyr yn y maes blynyddoedd cynnar ac nid oes yna gyfyngiad ar yr hyfforddiant blynyddoedd cynnar sydd ar gael i staff mewn meithrinfeydd a gynhelir.

## Anfanteision

- Mae'r cyllid ar gyfer addysg gynnar ond ar gael am uchafswm o 10 awr yr wythnos a rhaid manteisio ar hyn dros bum sesiwn o 2 awr yr un.
- Mae rhieni sydd yn gweithio yn medru cael mynediad at y cyllid drwy gyfrwng y Cynnig Gofal Plant a chredydau trethu er mwyn talu am gost y gofal plant cofleidiol os yw hyn wedi cofrestru gydag AGC; fodd bynnag, ar gyfer teuluoedd lle nad yw'r ddau riant yn gweithio, bydd hyn wedi ei gyfyngu i 10 awr yr wythnos ac nid y 12 awr a hanner fel sydd ar gael mewn meithrinfeydd a gynhelir.
- Bydd yna gyfnod pontio mwy sylweddol ar gyfer plant sydd yn mynychu canolfannau nas cynhelir pan eu bod yn symud i'r Dosbarth Derbyn, er bod yr ysgol yn medru cefnogi hyn os yw'r feithrinfa ar yr un safle
- Mae'r ddarpariaeth yn cael ei darparu gan ddarparwr preifat, sydd yn golygu bod nad yw'r ysgol yn uniongyrchol gyfrifol am y ddarpariaeth sydd yn cael ei chynnig.

## Casgliad

Ni ddylai ansawdd y ddarpariaeth fod yn ddibynnol ynglŷn ag a yw'r ganolfan wedi ei chynnal ai peidio. Yn Sir Fynwy, mae addysg gynnar safon uchel gennym o fewn ein canolfannau a gynhelir a'r rhai nas cynhelir, ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod hyn parhau. Mae cymorth ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol (ALN) ar gael i blant mewn canolfannau a gynhelir a'r rhai nas cynhelir. Rhaid i bob canolfan gynnis Cydlynedd Anghenion Dysgu Ychwanegol ac maent wedi derbyn hyfforddiant am y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd. Rhaid iddynt oll gydymffurfio gyda'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Cod cefnogol, er bod gwahaniaethau ynglŷn ar ffordd y mae hyn yn cael ei reoli; mewn meithrinfa a gynhelir, yr ysgol sydd yn gyfrifol am hyn ond mewn meithrinfa nas cynhelir, yr Awdurdod Lleol sydd yn gyfrifol am hyn

Bydd darpariaeth Dechrau'n Deg yn cael ei chynnwys ar y safle newydd a'r bwriad yw creu canolfan sydd yn cynnig 20 o lefydd ac yn cynnig sesiynau yn y bore a'r prynhawn ac felly bydd 40 o lefydd ar gael. Yn hanesyddol, mae'r ddarpariaeth Dechrau'n Deg wedi ei chynnig gan ganolfannau nas cynhelir yn Y Fenni ac felly, ymddengys y bydd hyn yn digwydd eto ar y safle newydd. Bydd yn ddarpariaeth Dechrau'n Deg yn cael ei chynnig o'r Ganolfan Acorn ar y safle Deri View presennol, ac felly, efallai na fydd teuluoedd sydd yn byw i fyny'r bryn o'r safle, na sydd yn meddu ar blant oed ysgol, yn ffafrio'r opsiwn yma. Bydd Cylch Meithrin Y Fenni yn parhau i gynnis gofal plant Dechrau'n Deg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae yna ddarpariaeth ar gyfer gofal plant cofleidiol ar y safle newydd ynghyd a'r ddarpariaeth Dechrau'n Deg ond nid oes yna benderfyniad eto ar sut y bydd hyn yn cael ei reoli. Os mai'r benderfyniad yw sefydlu meithrinfa a gynhelir, bydd Dechrau'n Deg a'r gofal plant cofleidiol yn medru cael eu rheoli gan un darparwr nas cynhelir. , Byddai hyn yn caniatáu rhieni sy'n gweithio i gael mynediad at addysg gynnar a



gofal plant cofleidiol ar yr un safle. Byddai hefyd yn golygu bod unrhyw blant Dechrau'n Deg sydd angen oriau ychwanegol yn medru cael mynediad at hyn ar yr un safle, gan leihau'r pontio sydd angen i blant ei wneud.

## Thema 2

## Y rhesymeg strategol dros sefydlu ysgol pob oed

Cwestiynwyd y rhesymeg strategol dros sefydlu ysgol pob oed newydd mewn sawl digwyddiad ymgynghori ac yn yr ymatebion ysgrifenedig. Roedd ymgynghoreion wedi cwestiynu pam fod Ysgol Gynradd Deri View wedi ei dewis a beth fyddai buddion model ysgol pob oed.

### Ymateb yr Awdurdod Lleol

Yn y rhan hon o'r adroddiad, rydym yn ceisio amlinellu'r achos ar gyfer cynnwys Deri View a rhai o'r buddion a ddaw yn ein barn ni gan ysgol pob oed. Rydym wedi canolbwyntio ar bedwar maes: dysgu, addysgu, arweinyddiaeth a llesiant. Mae'r pedwar maes yma wedi eu nodi gan Estyn (ymgynghorai statudol) fel meysydd sydd angen eu datblygu'n ymhellach.

#### Effaith ar Addysgu

Bydd cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru yn rhoi'r cyfle i ysgolion i gael mwy o ryddid ar ystod eang o elfennau gwahanol o ran eu darpariaeth addysgu, a hynny mewn nifer o ffyrdd. Bydd hyn yn dylanwadu sut y mae ysgolion yn trefnu yn y dyfodol, a bydd ysgolion pob oed o bosib yn cael mwy o hyblygrwydd i ddefnyddio arbenigedd a phrofiad eu staff ar draws yr ystod oedran ehangach. Mae hyn yn gosod ysgolion pob oed mewn sefyllfa fanteisiol wrth feddwl am benderfynu a rheoli beth a sut i addysgu plant, a'n rhoi'r cyfle i weithio ag ystod ehangach o gydweithwyr a fydd yn helpu'r holl athrawon i ddatblygu eu practis.

#### Dysgu

Bydd dileu'r cyfnodau a'r cyfnodau allweddol yn rhoi mwy o ryddid i athrawon i ddiwallu anghenion unigol y dysgwyr, heb orfod poeni am eu hoedran neu ble maent ar y continwwm dysgu. Mae hyn yn golygu y bydd ysgolion ac athrawon yn cael mwy o ryddid i wneud penderfyniadau am yr hyn sydd yn cael ei ddysgu a sut y mae'n cael ei ddarparu fel bod dysgu yn berthnasol ac yn ymgysylltu dysgwyr. Ni fydd y gwahaniaeth rhwng yr hyn sydd yn digwydd mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn bodoli mwyach yn yr un ffordd a dylai unrhyw bontio fod yn ddiraferth i'r ysgol. Bydd gweithlu sengl mewn ysgol pob oed yn medru myfyrio a datblygu arferion dysgu safon uchel parhaus ar gyfer y disgyblion ieuengaf a hynaf, a hynny o'i gymharu gyda grŵp llai o athrawon sydd yn ffocysu ar un cyfnod.

Mae ysgolion pob oed hefyd yn medru darparu ystod eang o ofodau corfforol ar gyfer dysgu ac addysgu, ac ystod well o ofodau, adnoddau a deunyddiau arbenigol, sydd yn medru cael eu defnyddio gan ystod o ddysgwyr ar draws grŵp oedran

ehangach yn hytrach nag mewn un cyfnod. Mae hyn yn cynnwys teclynnau digidol, gwybodaeth a thechnoleg dysgu, sydd yn anodd eu fforddio, eu cynnal a'u hadnewyddu mewn ysgolion un cyfnod.

### **Arweinyddiaeth**

Mae yna fanteision eglur o ran ysgolion pob oed pan yn datblygu ac yn darparu cwricwlwm newydd, yn cefnogi dysgwyr a'n darparu amgylchoedd dysgu effeithiol. Mae'r newidiadau yma yn hawdd eu rheoli mewn ysgolion pob oed gan fod mwy o gapasiti gan y gweithlu a'r hyblygrwydd i chwarae rôl fel rhan o'r gymuned ddysgu broffesiynol ehangach o'i gymharu gyda modelau llai, un cyfnod. Mae yna fwy o gyfleoedd i staff i ymgymryd â dyletswyddau arwain a chyfrifoldebau sydd yn cefnogi eu datblygiadau gyrfaoel a'n sicrhau arweinwyr ysgol safon uchel y dyfodol.

### **Effaith ar Lesiant**

Mae darparu cwricwlwm hyblyg, sy'n ymgysylltu ac cynnig dilyniant ac yn cael ei ddarparu mewn amgylchedd ddysgu safon uchel gyda gofodau ac adnoddau arbenigol er mwyn diwallu anghenion ein dysgwyr, yn mynd i gael effaith bositif ar lesiant. Bydd model ysgol pob oed yn meddu ar fwy o gapasiti i ddarparu'r holl bethau yma ar gyfer mwy o ddysgwyr ar draws ystod oedran ehangach o'i gymharu gydag ysgol cyfnod sengl.

## **Thema 3**

### **Enw'r ysgol newydd a'r cysylltiadau gyda Brenin Harri'r VIII**

Un o'r negeseuon clir a ddaeth yn amlwg yn ystod y digwyddiadau ymgynghori oedd bod enw'r ysgol yn bwysig iawn o fewn y gymuned ac i'r gymuned.

#### **Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Pan yn sefydlu ysgol newydd, mae yna gysail yn Sir Fynwy bod enw'r ysgol yn cael ei bennu gan Gyngor Sir Fynwy. Mae enw'r ysgol yn cael ei sefydlu drwy gyfrwng offeryn cyfreithiol; *Letters Patent*. O ganlyniad, efallai bod yn rhaid trafod unrhyw newidiadau i enw'r ysgol yn gyda Swyddfa'r Goron a fyddai wedyn yn gofyn am ganiatâd gan Ei Mawrhydi'r Frenhines. Mae'r elfen hon a'r ystyriaeth yn ymwneud ag enw'r ysgol, ac nid y sefydliad ei hun.

Mae'r Cyngor wedi cadarnhau, drwy'r adroddiad hwn, bod y broses ymgynghori yn ceisio gofyn am farn unigolion ar sefydlu ysgol pob oed a bydd yn ystyried yr holl adborth cyn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen o'r camau nesaf o'r broses statudol hon. Bydd enw'r ysgol yn cael ei benderfynu fel rhan o broses ar wahân, unwaith ein bod wedi penderfynu a ddylid parhau gyda'r cynnig i sefydlu ysgol.

<b>Thema 4</b>	<b>Y trefniadau pontio rhwng yr ysgolion clwstwr a'r boblogaeth Anghenion Addysg Arbennig</b>
----------------	-----------------------------------------------------------------------------------------------

Yn ystod rhan o'r ymgynghoriad cymunedol, roedd rhieni plant sydd yn mynychu ysgolion cynradd eraill yn Y Fenni wedi codi pryderon ynglŷn â sut y byddai eu plant yn integreiddio i mewn i'r ysgol ym mlwyddyn 7 gan y byddai llawer o blant wedi bod yn yr ysgol ers y dosbarth derbyn.

### **Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae yna berthynas hynod gryf rhwng Ysgol Uwchradd Brenin Harri'r VIII a'r clwstwr o ysgolion cynradd yn Y Fenni. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r berthynas yma wedi datblygu a nawr yn cynnwys rhannu arferion addysgu a dysgu. Yn benodol, mae'r cysylltiadau o ran rhifedd a llafaredd ymhlith y practis gorau yn y sector

Mae'r ysgolion wedi dechrau cysoni eu cynllunio ar gyfer y cwricwlwm a bydd cysoni'r dysgu hwn drwy flynyddoedd 5-8 yn adlewyrchu'r 'cyfnod canolraddol' sydd yn cael ei gynnig ar gyfer yr ysgol newydd.

Bydd datblygu ysgol pob oed yn arwain at gryfhau'r berthynas rhwng yr ysgolion clwstwr. Rydym yn credu y bydd y cynllunio agos yma a'r ffaith fod yr ysgol uwchradd yn cael gweld practis yr ysgol gynradd, yn elwa'r holl ddysgwyr yn yr ardal.

## 11. Argymhellion

Mae'r cyfnod ymgynghori o'r broses yma wedi rhoi'r cyfle i ni herio a phrofi'r opsiwn yr ydym yn ei ffafrio:

### ***Sefydlu ysgol pob oed gyda darpariaeth ADY ar safle Brenin Harri'r VIII ac atal cynnal Ysgolion Brenin Harri'r VIII a Deri View.***

Yn unol gyda'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (Tachwedd 2018), mae'r adroddiad ymgynghori yn medru gwneud argymhelliad i' Gabinet y Cyngor ynglŷn â sut i fwrw ymlaen gyda'r cynnig. Yr opsiynau sydd ar gael yw:

- 1) Cyhoeddi'r cynigion a oedd yn rhan o'r ymgynghoriad gydag addasiadau priodol
- 2) Diystyru'r cynigion a chynnal y *status quo*
- 3) Gwneud diwygiadau sylweddol i'r cynigion ac ail-ymgyngori

Mae'r adroddiad hwn wedi dangos tystiolaeth fod y Cyngor wedi medru cynnig mesurau sydd yn delio ag unrhyw bryderon a nodwyd ynglŷn â'r pedair prif thema a

ddaeth i'r amlwg yn ystod yr ymgynghoriad. Rydym yn argymhell felly fod yr opsiwn canlynol yn cael ei hystyried gan Gabinet y Cyngor fel rhan o'r camau nesaf yn y broses statudol:

**1) *Cyhoeddi'r cynigion a oedd yn rhan o'r ymgynghoriad gydag addasiadau priodol***

Mae'r addasiadau priodol a gynigir yn golygu y dylid sefydlu ysgol pob oed sydd â darpariaeth ar gyfer 3-19 ac nid darpariaeth 4-19, gan olygu parhau â'r ddarpariaeth blynnyddoedd cynnar gyda darpariaeth gofleidiol er mwyn medru cynnig hyblygrwydd i deuluoedd sydd yn gweithio.

## Atodiad 1 - Rhestr o Ymgylgoreion yr ydym wedi ymgynghori â hwy

- Rhieni, Gwarcheidwaid a gofawlyr yr holl ddisgyblion sydd wedi eu heffeithio'n uniongyrchol gan y cynnig
- Penaethiaid, staff a'r llywodraethwyr yr ysgolion hynny o ble y daw'r myfyrwyr
- Disgyblion/Cynghorau Disgyblion yr ysgolion sydd wedi eu heffeithio yn uniongyrchol gan y cynnig
- Penaethiaid yr holl ysgolion yn ardal CSF
- Hol Aelodau CSF
- Gweinidogion Cymru
- Holl Gynghorau Tref a Chymuned CSF
- Holl Aelodau Senedd Cymru sydd yn cynrychioli ardal CSF
- Holl Aelodau Senedd San Steffan sydd yn cynrychioli ardal CSF
- Cyfarwyddwyr Addysg yr holl Awdurdodau Lleol cyfagos - Blaenau Gwent, Powys, Torfaen, Swydd Henffordd.
- Pennaeth Coleg Gwent
- Mon Life
- GAVO
- Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgol Sir Fynwy
- Cymdeithasau Dysgu
- Cymdeithasau Staff Cymorth
- Swyddog Polisi (Cydraddoldeb ac Iaith Gymraeg)
- Llywodraeth Cymru
- ESTYN
- Cyfarwyddwr Addysg, Ymddiriedolaeth Esgobaeth yr Eglwys yng Nghymru
- Cyfarwyddwr Addysg, Ymddiriedolaeth Esgobaeth yr Eglwys Gatholig
- Gwasanaeth Cyflawni Addysg De Ddwyrain Cymru
- Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gwent
- RHAG
- Mudiad Meithrin

**Ysgol Uwchradd Brenin Harri'r VIII  
Ymgynghoriad gyda'r Disgyblion ar 25<sup>ain</sup> Mehefin 2021**

Cynhaliwyd ymgynghoriad gyda'r disgyblion ar 25<sup>ain</sup> Mehefin 2021 yn Ysgol Uwchradd y Brenin Harri. Hwyluswyd y cyfarfod gan Cath Saunders (rheolwr rhaglen Ysgolion y 21ain Garrif, Cyngor Sir Fynwy).

Roedd grŵp cynrychioliadol o ddisgyblion wedi dod at ei gilydd er mwyn trafod fersiwn plant o'r ddogfen ymgynghori gan ofyn cwestiynau i'r cynrychiolwyr o'r Awdurdod Lleol. Roedd copïau o'r dogfennau yma wedi eu gadael yn yr ysgol fel bod pob un disgybl yn medru cael cyfle i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad. Roedd y dogfennau yma wedi eu he-bostio hefyd i'r Pennaeth.

Nid oedd yna strwythur ffurfiol i'r cyfarfod ond roedd y myfyrwyr wedi cael cyfle i siarad yn agored a gofyn cwestiynau. Mae'r canlynol yn cynrychioli'r prif destunau a drafodwyd.

- Os nad ydym yn profi unrhyw bontio wrth symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, yna byddai'n anodd i fyfyrwyr symud o'r chweched dosbarth i'r brifysgol
- Mae myfyrwyr yn diflasu a'n dymuno newid ac nid wyf yn credu ei fod yn iachus i fod gyda'r un grŵp oedran drwy'r amser
- Mae bod ar yr un safle yn mynd i fod yn anodd
- Beth fydd y trefniadau o ran diogelwch - a fydd trefniadau'r ysgol uwchradd yn wahanol i'r ysgol gynradd?
- Mae cymeriad gan YBH – rwy'n hoffi hanes yr ysgol
- Mae YBH angen ei moderneiddio ond pam nad ydym yn medru cael ysgol newydd?
- Pam ydych yn peryglu'r ffordd y mae'r ysgol yn cael ei rheoli pan fod yr ysgol wedi llwyddo a gwella gymaint yn y 6 mlynedd ddiwethaf?
- Ble mae'r ysgolion 3-19 eraill yng Nghymru a beth yw'r manteision?
- Rwy'n credu y dylech gynnal ymchwil academaidd ar fuddion ysgol 3-19 a'r llwyddiant academaidd o'u cymharu ag ysgolion eraill
- Mae ystyried llesian yn wych – ond mae graddau ar bapur yn fwy pwysig.
- Byddai angen ffens rhwng y plant ifanc a'r plant hŷn – nid wyf am eu gweld.
- Mae newid ysgolion yn anodd ond mae bywyd yn medru bod yn anodd
- Byddai'n ddiddorol sut y mae pobl ifanc sydd yn mynd i Brifysgol yn teimlo ar ôl mynychu ysgol 3-19
- Nid oedd ponti yn gymaint o broblem – roedd yn iawn.
- Mae'n dibynnu ble maent, nid ydym am rannu cyfleusterau gan fod y rhai iau yn gwneud pethau yn flêr ac yn frwnt
- Roedd y pontio yn anodd - roeddem wedi cael diwrnod pontio a daeth yr athrawon i'n hysgol
- Byddai wedi fy helpu pe bawn yn yr un ysgol



- Mae pontio yn rhan o ddysgu am fywyd ac yn eich paratoi chi am fywyd – ond mae rhai yn medru bod o dan anfantais.
- Roeddwn wedi dychryn
- Byddai'n medru bod yn ormod i blant iau i gael y plant hŷn o'u cwmpas
- Os byddai athrawon yn dysgu pobl hŷn i fod yn fwy parchus, byddai hynny yn iawn.
- Byddai angen rhwystr rhwng y disgyblion iau a hŷn er mwyn atal disgyblion hŷn rhag dianc ac aflonyddu'r disgyblion iau
- Rydym angen adeilad newydd
- Byddem yn hoffi cadw hanes yr ysgol, yn enwedig yr enw
- Byddai'n beth da gan y byddem yn adnabod yr athrawon ac yn adnabod yr ysgol
- Ni fyddem yn poeni ac yn llai nerfus
- Rwy'n hoffi'r cyfleusterau chwaraeon nawr ond maent yn edrych yn hen ac angen eu huwchraddio
- Mae gorchuddio'r manau agored yn bwysig
- Mae adnabod yr athrawon yn fonws ac nid yn beth gwael ac yn gwneud i chi deimlo'n llai nerfus ynglŷn â mynd i'r gwersi
- Byddai ysgol newydd yn neis ond ni fyddai'n well na Deri View - gadewch Deri View fel y mae
- Beth am y graffiti os yw'r disgyblion cynradd ac uwchradd gyda'i gilydd
- Nid wyf am weld adeilad Ysgol Brenin Harri yn cael ei ddymchwel a byddai cyfuno'r ysgolion yn effeithio ar y dref.
- Mae'r adeilad yn edrych yn hen ac rydym angen cyfleuster dysgu modern
- Efallai y byddai ysgol newydd yn denu pobl i'r Fenni ond mae'r enw yn bwysig iawn gan fod yr ysgol hon yma ers 500 can mlynedd
- Roeddwn yn nerfus iawn; nid oedd yna ddiwrnodau pontio ond roeddem yn iawn unwaith i ni ddechrau.
- Gallai fod yn dda gan fod disgyblion uwchradd yn medru gosod esiampl i'r disgyblion iau
- Byddai profiad gwaith yn y cyfnod cynradd a'r feithrinfa yn dda
- Mae bod ar yr un safle yn iawn ond mae angen adeiladau a chyfnodau gwahanol
- Nid wyf am weld yr adeiladau yn cael eu huno, gan y byddai yna ormod o fyfyrwyr ac mae angen iddynt fod ar wahân
- Dylai'r ysgolion sy'n bwydo gael yr un cyfle â'r DV
- Byddai'n well gennyf i ffwrdd o'r plant ifanc
- Mae addysgu ar-lein a chymysg yn fwy hawdd
- Mae angen sicrhau bod yr egwyl ginio ar adegau gwahanol
- Mae ein toiledau wedi torri drwy'r amser ac yn frwnt ac mae'r ystafelloedd dosbarth yn rhy fach a'n dwym
- Nid wyf yn gwrthwynebu ar yr amod nad yw'r rhai iau yn aflonyddu arnom wrth i ni ddysgu
- Plŷs peidiwch â chymysgu'r disgyblion cynradd ac uwchradd
- Plŷs cadwch yr enw – mae arwyddocâd hanesyddol gan yr enw

- Os yw'r addysg yn cael ei darparu, nid oes ots
- Ni ddylai Pen y Pound fod yn fwy prysur
- Mae'n bwysig fod yr ysgol newydd yn meddu ar yr un diwylliant â'r hyn sydd yn yr ysgol ar hyn o bryd

## **Ysgol Gynradd Deri View Ymgynghoriad gyda Disgyblion ar 17<sup>eg</sup> Mehefin 2021**

Roedd y cyfarfod ymgynghori gyda'r disgyblon wedi ei gynnal ar 17eg Mehefin 2021 yn Ysgol Gynradd Deri View. Hwyluswyd y cyfarfod gan yr aelod staff a Matthew Jones (Rheolwr Uned Mynediad, Cyngor Sir Fynwy),

Roedd grŵp cynrychioliadol o ddisgyblion wedi dod at ei gilydd er mwyn trafod fersiwn plant o'r ddogfen ymgynghori gan ofyn cwestiynau i'r cynrychiolwyr o'r Awdurdod Lleol. Roedd copïau o'r dogfennau yma wedi eu gadael yn yr ysgol fel bod pob un disgybl yn medru cael cyfle i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad. Roedd y dogfennau yma wedi eu he-bostio hefyd i'r Pennaeth.

Nid oedd yna strwythur ffurfiol i'r cyfarfod a rhoddwyd cyfle i'r disgyblion i siarad yn agored a gofyn cwestiynau. Mae'r canlynol yn cynrychioli'r prif destunau a drafodwyd.

### **1. Beth ydych yn hoffi am eich ysgol?**

Ffrindiau ac athrawon  
Mannau awyr agored  
Ysgol goedwig  
Clwb brechwast  
Amser adeiladu  
Prosiectau / pynciau gwaith  
Amser cinio  
Addysg Gorfforol  
Prosiectau Gwyddoniaeth a Mathemateg  
Heriau mathemateg

### **2. A oes yna bethau nad ydych yn goffi am eich ysgol?**

Cyflwyniadau a siarad o flaen pobl eraill  
Chromebook  
Gwaith – yn enwedig Saesneg  
Plant sydd yn difetha pethau i chi am eu bod yn ddrygionus yn y gwersi  
Athrawon yn gweiddi  
Cael fy ngheryddu  
Nerfus ynglŷn â gofyn am help  
Pobl yn dadlau  
Gorfod mynd adref

### **3. Beth hoffech chi wneud gydag adeilad yr ysgol?**

Bwrdd gwyn rhyngweithiol

Ystafelloedd dosbarth o'r un maint  
Dim gymaint o blant ar yr iard ar yr un pryd tra'n chwarae yn sgil Covid, ac felly  
mae mwy o le i chwarae  
Cae er mwyn gwneud Ymarfer Corff a chwarae  
Planhigion gwyrdd y tu allan  
MUGA a chae chwarae  
Maint da

#### **4. Beth nad ydych yn hoffi am yr adeilad?**

Nid yw'r coridorau yn ddigon llydan  
Mae'r ystafelloedd dosbarth yn rhy fawr a byddai modd eu defnyddio ar gyfer  
pethau eraill pe baent yn llai  
Angen gorchudd ar y MUGA  
Ffenestri ystafelloedd dosbarth ar gyfer iau yn edrych allan ar ardal CA1, ac felly,  
os ydynt y tu allan a'n gwneud sŵn, rhaid i ni gau'r ffenestri gan nad ydym yn  
medru canolbwyntio  
Dim pwll nofio  
Botymau ar y llaw y mae'n rhaid eu gwthio er mwyn mynd i mewn ac allan  
Dim digon o goed  
Angen mwy o lefydd i ddringo a chwarae e.e. siglen a wal ddringo

#### **5. Sut ydych yn teimlo ynglŷn ag os yw eich ysgol chi ar yr un safle ag ysgol plant hŷn?**

Byddai'n iawn ond dal bach yn bryderus ond os byddai brawd neu chwaer hŷn  
gennych, byddech yn cael y cyfle i'w gweld  
Efallai y bydd y plant ifanc yn ofni'r plant hŷn  
Mae'n dibynnu ar ba mor fawr yw'r adeilad  
Byddem yn hoffi bod yr adeilad yn edrych yn wahanol  
Nerfus ynglŷn â'r plant hŷn ac yn bryderus ynglŷn â gosod esiampl i'r plant iau  
Byddem yn hoffi bod yna iard ar wahân rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol  
uwchradd  
Yn teimlo'n iawn gan fod fy chwaer hŷn yno ond yn ofni os yw'r plant hŷn yn bwlio  
Yn dda gan eich bod yn cael gweld eich brawd neu'ch chwaer hŷn  
Yn cael gweld ffrindiau hŷn  
Gobeithio na fydd yr adeilad yn rhy fawr gan y byddaf ar goll  
Mae ofn arnaf ond mae fy nghefnder yma  
Rwy'n poeni am blant hŷn yn gosod enghraifft esiampl wael i ni  
Yn poeni bod plant hŷn yn mynd i'n brifo ni

#### **6. Blynyddoedd 5 a 6 – a oes unrhyw un ohonoch wedi meddwl am ysgol uwchradd**

Hapus i weld fy chwaer  
Rwy'n ofni'r nifer o blant a phobl sydd yno  
Rwy'n poeni am fod yno heb ffrindiau ond yn hapus i gwrdd â ffrindiau newydd  
Yn disgwyl ymlaen ato er mwyn cael newid  
Yn bryderus fy mod yn mynd i wneud penderfyniadau cywir  
Yn poeni am ba mor gyflym y mae amser yn mynd  
Cyfle gwych i ddechrau o'r dechrau

Poeni ynglŷn â mynd ar goll  
Poeni am blant hŷn

### **7. Cynigion a chynlluniau – sut ydych yn teimlo am y cynllun i osod meithrinfa breifat ar y safle?**

Gwych ar gyfer yr ysgol newydd  
Yn dibynnu ar faint yr ysgol  
Mae meithrinfa breifat yn well, gan nad yw'r plant yn ofni gymaint  
Maent ond yno am flwyddyn, ac felly, nid oes ots  
Mae ei frawd yn y feithrinfa a byddai'n cael ei wahanu wrthi  
Angen gwibdaith o'r safle cyn dechrau  
Taith rhithiwr er mwyn profi'r cyfleoedd sydd i blant iau

### **8. Cwestiynau gan y plant**

Beth fydd enw'r ysgol newydd?  
A fydd yr athrawon yn symud i'r ysgol newydd?  
A fyddwn yn cael ysgol goedwig?  
A fyddwn yn cael gwersi yn yr awyr agored?  
A fyddwn yn cael toiledau mwy?  
A fydd yna Seren Fach newydd (lle y mae'r plant yn mynd i gael tawelwch os ydynt yn cael trafferth ar yr iard / ffreutur)  
A fydd yna ystafelloedd dosbarth gwahanol ar gyfer pethau gwanhaol?  
A fydd yna ystafelloedd meithrin?

